

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



Rhifyn 377 - 60c
Hydref 2019

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llanybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Cyhoeddi
Hunangofiant
John Morris**



Tudalen 9

**Cadwyn
Cyfrinachau
Arall**



Tudalen 10

**Dathlu
Pen-blwydd
Arbennig**



Tudalen 8

Canu Clodydd



Llongyfarchiadau mawr i blant Ysgol Dyffryn Cledlyn sef Lowri Rees am ennill y darian am y perfformiwr gorau yn 2019, Teifi Edwards am waith mathemateg / gwyddoniaeth, a Nia Williams am fod y cymwynaswr gorau. Rhoddwyd gwobr arbennig hefyd i Lucy Moyes. Da iawn bawb!



Llongyfarchiadau i Bryn Thomas o Glwb Golf Cilgwyn sydd wedi cael tymor llwyddiannus dros ben.



Côr Cwmann ar ôl eu perfformiad yng nghyngerdd mawreddog llwyddiannus, Neuadd Sant Iago, Cwmann yn ddiweddar.

C.Ff.I. Ceredigion



Aelodau CFfI Ceredigion yn dathlu dod i'r brig yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymru ar ôl ennill Tlws Beynon Thomas i'r Adran Iau orau a'r Aradr sef Tlws y Western Mail am y Sir mwyaf llwyddiannus yn 2018-2019.



Dyfrig Williams, Llangwryfon yn llwyddo i ennill stocmon hŷn NFYFC



Caryl Haf, Llanddewi Brefi, Is-gadeirydd CFfI Cymru



Elin Davies, Llanwenog yn ennill ar yr holiadur Adran Iau ar lefel genedlaethol



C.Ff.I Bro'r Dderi yn mwynhau noson o sblasio yn 'Llandysul Paddlers'



Uchafbwyntiau'r mis ar
clonc360.cymru

● LLU O BOBL YN SIOE LLANFAIR

Daeth lluo o bobol ynghyd unwaith eto i gystadlu a chefnogi Sioe Llanfair Clydogau ar ddydd Llun Gŵyl y Banc.



Y Sioe Gŵyl Llun gan Alan Leach.

● EISTEDDFOD PANT-Y-FEDWEN LLANBEDR PONT STEFFAN

Cafwyd cystadlu ardderchog ymhlith y cystadlaethau lleol, a datblygodd yn ddiwrnod cofiadwy iawn i'r Llywydd Meirir Ebbsworth oherwydd ei mab, Twm, enillodd Gadair y Bardd dan 25 oed.



Twm Ebbsworth yn cael ei gadair.

● ANSICRWYDD O HYD AM DDYFODOL Y BRIFYSGOL

Mae poblogaeth Campws Llanbedr wedi haneru dros y pum mlynedd ddiwethaf, ond mae cynlluniau i ddatblygu'r campws yn y dyfodol agos yn ôl y Deon Dr Jeremy Smith.



● DYN O LANBED YN ARWAIN CLODDIO YSTRAD FFLUR

Mae prosiect dan adain archeolegydd o Lanbed yn datgelu rhagor eto am un o brif safleoedd hanesyddol Cymru - Abaty Ystrad Fflur.

Ffili aros tan y papur nesa'?
- clonc360.cymru

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:

Hydref Elaine Davies, Pen-y-nant, Llanwnnen 480526
Tachwedd Gwyneth Davies, Llys Enwyn, Llanybydder 480683
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol Elaine Davies, Gwyneth Davies, Sian Jones, Marian Morgan, Delyth Morgans Phillips, Siwan Richards a Lois Williams.

Dylunydd y mis Gareth Davies, Llys Enwyn, Llanybydder 480683

Dosbarthwyr Eifion ac Yvonne Davies, Afallon, Drefach 480590
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwy'r Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Sian Roberts-Jones, Croesor 423313
Cwmsychpant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Eirlys Owen, Cwmderi 481041
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Gwyneth Davies, Llys Enwyn, Llanybydder 480683
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk
Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Gofynnir i bawb ddatgan eu bod wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfôn pob adroddiad i Bapur Bro Clonc / gwefan Clonc a gwefan Clonc360 a wedi sicrhau caniatâd rhiant neu warcheidwad pob plentyn dan 13 oed.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy'r i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Siop J H Roberts a'i feibion, Y Stryd Fawr, Llanbed.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Y gymuned ar ei gorau

Ers i'r rhifyn diwetha' o Clonc gael ei gyhoeddi, rydw i wedi bod mewn dwy eisteddfod leol. (Rydwn i wedi gwneud lot mwy mewn mis na mynychu dwy eisteddfod wrth gwrs!) Eisteddfod Tregaron ac Eisteddfod Felinfach. Ac er bod y ddwy mas o ardal Clonc (un yn ardal y Barcud, y llall yn ardal Llais Aeron), maen nhw'n eisteddfodau sy'n cael cefnogaeth rhai lleol i ddarllenwyr Clonc, ac yn cynrychioli ardaloedd tebyg iawn i'n hardaloedd ni.

Yn y blynyddoedd diwetha', rydw i wedi sylwi bod Tregaron wastad yn llwyddo i ddenu cystadleuwyr digon parchus o ran nifer. Llynedd, roedd Eisteddfod Felinfach yn drychinebus o wan. Ond, diolch byth, wnaeth y pwyllgor ddim rhoi'r ffidil yn y to – yn hytrach, fe fentron nhw newid yr eisteddfod o'r dydd Sadwrn i'r nos Wener. Ac fe dalodd hynny ar ei ganfed. Roedd hi'n eisteddfod arbennig, a'r niferoedd yn cystadlu yn llawer uwch na'r llynedd, a'r gynulleidfa yn ddigon anrhydeddus. Braf iawn hefyd oedd gweld dau enillydd lleol yn y ddwy seremoni – Carwyn Hawkins o Giliu Aeron yn cipio Tlws yn Ifanc, a Helen Davies o Temple Bar yn ennill y Gadair. Roedd naws gymunedol braf iawn yn y neuadd. Efallai fy mod i'n rhamantu, ond roedd hi'n hawdd dychmygu taw nosweithiau fel hyn oedd yn rhoi boddhad mawr i genhedlaeth fy mam a nhad, a nhad-cu a mam-gu pan oedden nhw'n mynd i'r neuaddau lleol i gefnogi eisteddfodau a chyrddau cystadleuol a dramâu amatur. Pobol y wlad yn dod i gefnogi digwyddiadau lleol, a'r cwbl yn fwrlwm o Gymreictod.

Yn nyddiau bygythiadau tywyll o bob math (af i ddim i fentro mynd ar ôl miri'r llywodraeth yn San Steffan a'r Brexit bondigrybyll), mae'n braf gweld bod traddodiadau gorau ein cymunedau'n dal i ysbrydoli cenhedlaeth newydd o Gymry Cymraeg. Daliwn ati, a rhown bob cefnogaeth i'r pethe da hynny sy'n cynnal ein cymunedau.

Cloncen

Mae CLONC wastad yn chwilio am bobl newydd i helpu.

Hoffech chi ysgrifennu erthygl neu dynnu lluniau?

Hoffech chi weinyddu'r wefan? Neu beth am waith dylunio?

Rydym yn chwilio am swyddogion hysbysebu a swyddogion gwerthiant. Allech chi sbario awr y mis wrth ymuno â'r criw ffyddlon sy'n plygu Clonc?

Cysylltwch ag un o'r Bwrdd Busnes

Wedi meddwl hysbysebu yn eich papur bro? Ceir prisiau rhesymol iawn

gan ddechrau gydag hysbyseb bach yn

£12 yn unig,

a dim ond £72 am ddeg ohonynt.

ysgrifennydd@clonc.co.uk

Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.



Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Rhifyn Tachwedd

yn y Siopau
7 Tachwedd
Erthyglau, Newyddion a Lluniau i law erbyn
28 Hydref

Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan, beic modur Yswiriant tŷ/ cynnwys
Tai Bwyta / Siopau Fferm a busnes
Cyfrifoldeb Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: **01570 422401**
E-bost: **carol@ejic.co.uk**

Mae Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoleddig gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Graham Jones

Gwasanaethau Cyfrifiaduron

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
- ★ Ymweliadau Cartref
- ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a Pherifferolion Ar Werth
- ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn **01545 560776**
neu **07715 740777**
www.tynici.com

graham@tynici.com



£17.50 yw pris Tanysgrifiad Blwyddyn Papur Bro Clonc. Beth am ei brynu fel anrheg?

Cysylltwch â Mary Davies,

Ysgrifenyddes Clonc
ysgrifennydd@clonc.co.uk



HYDREF

- 2 Cwrdd Diolchgarwch Capel Maesffynnon, Llangybi am 2:00y.p. Pregethir gan y Parch Andrew Lenny, Aberystwyth. Croeso cynnes i bawb.
- 3 Cwrdd Diolchgarwch Capel Seion, Cwrtnewydd am 7.00y.h. Pregethir gan Parch Aled Lewis, Tregaron.
- 4 Noson yng nghwmni Ben Lake, AS am 7.30y.h. yn Festri Capel Pantydefaid, Prengwyn. Mynediad am ddim a chroeso i bawb.
- 4 Tim Rygbi Llambled dan 16 yn cyflwyno Rasys Ceiliogod yng Nghlwb Rygbi Llambled am 7.00y.h.
- 6 Cymanfa C.Ff.I. Bro'r Dderi yng Nghapel Bethel, Silian am 7y.h. Bydd Lowri Elen Jones ac Elli Dafydd yn arwain gyda Gethin Morgan yn cyfeilio. Elw at Eisteddfod Ceredigion 2020.
- Cwrdd Diolchgarwch Capel y Bryn, Cwrtnewydd am 7.00y.h.
- 8 Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw, Cellan am 7y.h. Y pregethwr gwadd eleni yw y Parchedig Peter Thomas, Aberystwyth. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni.
- 8 Cwrdd Diolchgarwch C.Ff.I. Llanllwni am 7:30y.h. yn Eglwys St James, Rhos, Llangeler dan ofalaeth y Parchedig Gareth Reid.
- 9 Cwrdd Diolchgarwch Capel Nonni am 7.00y.h. Y Parchedig Gwyn Elfyn Jones o Bontyberem fydd yn gwasanaethu. Croeso cynnes i bawb.
- 9 Cwrdd Diolchgarwch Bethel Parc-y-rhos am 7.00yh gyda'r Fon Beti Griffiths.
- 11 Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gâr yn Neuadd Sant Pedr, Caerfyrddin.
- 11 Eisteddfod Hwyl Papurau Bro Ceredigion yn Neuadd Felinfach am 7.30yh.
- 12 Noson arbennig yng nghwmni Cwlwm, Delwyn Sion ac Ifan Gruffydd. Ffreutur Coleg Prifysgol Y Drindod Dewi Sant am 7.30 £15 yn cynnwys lluniaeth ysgafn. Tocynnau gan Bwyllgor y Gronfa. Ann Morgan 07791 966122 neu Carys Lloyd Jones 07976 645957.
- 13 Cwrdd Diolchgarwch yn Eglwys Llanwnnen am 6.30y.h. Swper i ddilyn.
- 13 Oedfa Ddiolchgarwch Ysgol Sul Noddfa Llambled am 5y.h.
- 14 Merched y Wawr Llanbed. Cwrdd am 7 o'r gloch yng Nghanolfan Bowls Llanbed. Hanes y bowllo yng nghwmni Anwen Butten.
- 17 Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm, Cwmsychpant am 7:30y.h.
- 18 Noson yng nghwmni yr Athro Mererid Hopwood yn Festri Pantyfedaid, Prengwyn am 7.30y.h. Mynediad am ddim. Noson agored a chroeso cynnes i bawb.
- Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gâr yn Neuadd Sant Pedr Caerfyrddin.
- 21 Oedfa Ennyd Gobaith yn Eglwys San Pedr, Llambled am 2.30y.p.
- 21 Cwrdd Diolchgarwch C.Ff.I. Llanwenog yn Eglwys Llanwenog am 7:30yh. Croeso cynnes i bawb.
- 22 Swper Cynhaeaf C.Ff.I. Llanllwni am 7:30yh yn Neuadd yr Eglwys, Maes-y-crugiau.
- 26 Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint.
- 26 Cymanfa'r Cynhaeaf gyda Bois y Gilfach yn Eglwys St Tysul, Llandysul am 7.30y.h. Elw'r noson at gronfa trwsio'r organ bib ac elusen Bois y Gilfach. Tocyn £10 ar gael o Siop Ffab neu o'r Ficerdy 01559 363874.
- 27 Cymanfa C.Ff.I. Cwmann yng Nghapel Brondeifi i ddathlu'r 60.
- 31 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.

TACHWEDD

- 1 Parti Calan Gaeaf yn Llew Du, Llanybydder am 6.00y.h.
- 2 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.
- 2 Teilwng yw'r Oen yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth.
- 10 Cyfweiliadau Teithiau Tramor C.Ff.I. Cymru
- 11 Cinio blynyddol yn 'Dyffryn Aeron' Felin-fach. Adloniant gan Guto Jones.
- 13 Hyfforddiant Barnu Carcas
- 16 John ac Alun a Clive Edwards yn Neuadd y Coroniad, Pumsaint.
- 19 Sioe Leave land Gadael tir gan Owen Shears a Gwilym Morus Baird am 7.30 yn Neuadd Ysgol Iau Bro Pedr. Perfformir yn Saesneg. Elw tuag at Gronfa Leol Llambled ar gyfer Eisteddfod 2020. Tocynnau Ann Morgan - 07791 966122, Carys Lloyd Jones - 07976 645957.
- 22 Chwaraeon Dan Do
- 25-26 Ffair Aeaf ar faes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd.
- 30 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yn Aston Hall, Wrecsam.

RHAGFYR

- 2 Cynhelir plygain Llambled am 7 o'r gloch, yng Nghapel y Brifysgol. Croeso cynnes i bawb.
- 5 Sioe "Oliver" Ysgol Bro Pedr yng Nghanolfan y Celfyddydau am 1.15 a 6.30.
- 7 Ffair Nadolig yn Ysgol Llanllwni. Trefnir gan Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r ysgol a'r ysgol feithrin. Stondinau, raffi, ymweliad gan Santa a lluniaeth. Croeso cynnes i bawb.
- 7 Ysgol a Chylch Meithrin Llanybydder yn cynnal Ffair Nadolig am 10.00y.b. yn Neuadd yr Ysgol. Stondinau, adloniant gan y plant a Siôn Corn.
- 14 Carol, Cerdd a Chân Eglwys San Pedr, Llambled am 7y.h.
- 17 Bingo Cylch Meithrin Llanybydder am 8.00y.h. yng Nghlwb Rygbi Llanybydder.
- 24 Gwasanaeth Carolau yn Hen Gapel Llwynrhydowen am 9.00y.h. Croeso cynnes i bawb.
- 25 Cwrdd Undebol yng Nghapel y Cwm, Cwmsychpant am 9.00y.b. Croeso cynnes i bawb.

2020

MAWRTH

- 7-8 Gŵyl Adloniant C.Ff.I. Cymru.

MEHEFIN

- 13 Cinio C.Ff.I. Cwmann i dathlu'r 60.

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
 - Symud celfi
 - Unrhyw waith
- o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
 - Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder
SA40 9RL

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



Peiriannydd Gwres Canolog
Trwsio, gwasanaethu a gosod boeler

Ffôn: 07811052757

Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffynau Olew
- Pymplau Gwres o Ffynonhellau'r ddaear a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com



CELFI CEGIN A 'STAFELL
WELY WEDI'U FFITIO,
ATEGOLION CEGIN,
CYFARPAR TRYDAN,
TEILS WAL A LLAWR

SGWÂR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER

01570 480257

www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,

**Masnachwyr-coed, ffensio
a nwyddau adeiladu o
bob math. Tanwydd gan
gynnwys nwy FloGas a
glo caled a meddal o'r
ansawdd gorau**

Ysgol y Dderi

Croeso cynnes iawn i'r plant newydd sydd wedi ymuno â ni ar ddechrau'r tymor yma. Croeso hefyd i Miss Tracey Evendon sydd wedi ymuno â ni fel athrawes blwyddyn 3. Gobeithio y byddwch chi'n hapus iawn yn ein plith.

Mae disgyblion blwyddyn 6 wedi bod yn rhedeg siop Co-op Y Dderi, sef siop sy'n gwerthu cynnyrch yr ardd. Rydym wedi bod yn gwerthu tomatos, spigoglys, ffa, blodau pys melyn a tsili. Diolch i Miss Helen Duffee am gydlynw'r gwaith.

Bu Asha a Beca yn cynrychioli'r ysgol mewn Cynhadledd Llais y Plant yn Siambr y Cyngor ym Mhenmorfa yn ddiweddar. Bu Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru yn cynnal gweithdy ar Hawliau'r Plant a bu Elen ap Gwyn yn cynnal sesiwn holi ac ateb yn ystod y bore.

Mae'r Clwb Ceginio wedi ail ddechrau ac maent wedi bod yn ceginio pítsa, cacen lemwn a byrgys. Diolch i Miss Jen am eu dysgu bob nos Lun.

Ar ddechrau'r tymor bu disgyblion blwyddyn 4 yn hau hadau gwenith sydd wedi bod yn tyfu yng ngardd yr ysgol. Y cam nesaf fydd ymweld â Felin Ganol er mwyn cynhyrchu pecynnau blawd Ysgol Y Dderi!

Diolch i Ceredigion Actif am gynnal sesiwn pêl fasged gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6. Cafwyd bore egnïol a hwylus dros ben.

Diolch i Lleucu Meinir o Cadwyn Teifi am ddod i'r ysgol i siarad am stori'r creu trwy ddefnyddio ffilm a ffotograffiaeth. Cafwyd diwrnod hwylus a buddiol iawn.

Diolch i Ysgol Dyffryn Cledlyn am drefnu twrnamaint pêl droed i blant yr ardal. Colli, ennill a gêmâu cyfartal oedd hanes ein timoedd ac roedd pawb wedi mwynhau y profiad yn fawr.

Rhyfeddodau'r byd yw thema blwyddyn 5 a 6 felly aethant ar daith "7 Rhyfeddod Ceredigion" gyda Mr Dafydd Morgan. Dyma adroddiad y dosbarth:

Ym Mhrifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant, Campws Llanbedr Pont Steffan, cyflwynwyd y gêm rygbi i Gymru. Defnyddiwyd rheolau Ysgol Rygbi wrth i is-bennaeth Coleg Dewi Sant Llanbedr ar y pryd, sylwi nad oedd y myfyrwyr yn iach ac roedd angen rhywbeth i gadw nhw'n iach. Ei enw oedd y Parchedig Rowland Williams. Fe oedd y person cyntaf i ddod â rygbi'r undeb i Gymru.

Yn ail aethon ymlaen i Landdewi Brefi i glywed am hanes Dewi Sant, Nawddsant Cymru. Dyn da oedd Dewi Sant a chlywsom ni sut oedd y tir wedi codi o dan ei draed wrth iddo bregethu yn y pentref er mwyn i bawb gael ei glywed.

Erbyn heddiw mae Eglwys brydferth wedi cael ei hadeiladu ar frig y bryn.

Ymlaen â ni i Dregaron nesaf.

Gyferbyn â cherflun Henry Richard ar Sgwâr Tregaron, gwelsom gerflun arall, Twm Siôn Cati yn cuddio tu ôl i goeden. Fe yw fersiwn Cymru o 'Robin Hood'. Cafodd ei alw'n lleidr pen ffordd. Roedd e'n crwydro ardaloedd gorllewin a chanolbarth Cymru ac yn dwyn gan y cyfoethog. Mae nifer o storïau difyr amdano. Roedd e'n hoff o jôc dda ac yn ddyn cyfrwys iawn. Enw iawn Twm Siôn Cati oedd Thomos Jones.

Yn ôl y sôn, daeth syrcais i dref Tregaron ym 1848. Roedd ganddyn nhw eliffant o'r enw Jimbo ond yn anffodus yfodd ddŵr gwenwynig o'r nant ar y ffordd i Dregaron. Aeth i orffwys yn stabl Ivy Bush, wrth ochr Gwesty'r Talbot ond bu farw o fewn diwrnodau. Claddwyd yr eliffant tu cefn i'r Talbot.

Ar ôl deg munud yn y bws, fe gyrhaeddodd ni Abaty Ystrad Fflur. Cawson ni glywed am holl ddarganfyddiadau'r archeolegwyr dros y misoedd diwethaf. Roedd hyn yn dangos i ni sut roedd y mynachod yn byw.

Ar ôl cinio cawsom gyfle i ymweld â phontydd a rhaeadrau enwog Pontarfynach. Yn ôl yr hen chwedl, adeiladwyd y bont gyntaf gan y diafol - dyna sy'n gyfrifol am yr enw Devil's Bridge yn Saesneg. Yn ôl y sôn, roedd dynes wedi colli ei buwch a gofynnodd y diafol iddi os oedd angen help. Fe addawodd y diafol adeiladu pont erbyn y bore. Er mwyn talu'n ôl, roedd e'n gofyn am gael cadw'r peth byw cyntaf oedd yn croesi'r bont. Erbyn y bore, roedd y bont yn barod. Roedd y ddynes yn ddigon call. Taflodd dorth o fara a chyn pen dim, rheddodd y ci ar ôl y dorth. Dyna oedd y peth byw cyntaf i groesi'r bont. Doedd y diafol ddim eisiau cadw'r ci drewllyd a diflannodd. Daeth y diafol fyth yn ôl i Gymru eto!

Yn olaf, aethon ni ymlaen i Borth i glywed am hanes Cantre'r Gwaelod. Mae hanes Cantre'r Gwaelod yn un o chwedlau mwyaf adnabyddus Cymru. Ydy'r boncyffion ar lan y môr yn awgrymu bod gwir y tu ôl i'r chwedl? Y stori yw bod tiroedd Cantre'r Gwaelod yn cael eu rheoli gan Gwyddno Garanhir o'i blas Caer Garanhir. Diogelwyd y tir rhag y môr gan forglawdd o dan ofal Seithennyn, a'i gyfrifoldeb ef oedd cau'r llifddorau bob nos i ddiogelu'r tir rhag y llanw. Ond ar ôl noson hir o yfed cwrw, aeth Seithennyn i gysgu gan anghofio am y llifddorau. Rhuthrodd y dŵr i mewn gan foddio tiroedd Cantre'r Gwaelod, ond llwyddodd Seithennyn a'r Brenin ddianc i'r mynyddoedd.

Diolch i Mr Dafydd Morgan am y daith arbennig ac am rannu cyfoeth o wybodaeth.



Elen ap Gwyn yn cynnal sesiwn holi ac ateb



Blwyddyn 5 a 6 yn mynd ar daith i Landdewi Brefi i glywed hanes Dewi Sant



Blwyddyn 5 a 6 yn mynd i Borth i glywed hanes Cantre'r Gwaelod

C.Ff.I Bro'r Dderi

Rydym wedi cael nifer o nosweithiau amrywiol yn ystod mis Medi. Pa well ffordd i ddechrau blwyddyn newydd y ffermwyr ifanc na gyda sosial i wahodd aelodau newydd? Dyna wnaethom ni ddechrau mis Medi a chynnal barbeciw er mwyn dod â phawb at ei gilydd cyn bwrlwm y flwyddyn.

Cafwyd noson llawn sbri a sblasho yn 'Llandysul Paddlers' gyda phawb yn sopen erbyn y diwedd! Bu'r aelodau hefyd yn ceginio cacennau lemwn dan arweiniad Jen Jones. Roedd yr arogl yn hyfryd a'r wled ar ddiwedd y noson yn un i ryfeddu ati.

Cawsom noson o dipit ddiwedd y mis a gweld bod cynllun marcio, props a phob dim i'w defnyddio mewn gêm o dipit. Doedden ni ddim

wedi disgwyl cymaint o reolau!

Aeth nifer o aelodau'r clwb i fwynhau noson 'It's a knockout' Fforwm Ieuencid y Sir. Diolch yn fawr iawn i'r pwyllgor am drefnu.

Cyflwynwyd siec am £360 i Gronfa Leisa-Jên wedi ymdrechion i godi arian dros y flwyddyn ddiwethaf.

Croeso i unrhyw un rhwng 10 a 26 oed ymuno â ni bob nos Lun yn Ysgol y Dderi 7:30 hyd 9yh. Dewch yn llw!

Cofiwch am ein Cymanfa Ganu yng Nghapel Bethel, Silian ar y 6ed o Hydref i ddechrau am 7yh gyda lluniaeth ysgafn i ddilyn. Bydd Lowri Elen Jones ac Elliw Dafydd yn arwain gyda Gethin Morgan yn cyfeilio. Croeso cynnes i bawb!

Ysgol Bro Pedr Campws Iau

Cafodd nifer o'n disgyblion wobrau yn Eisteddfod Llambod eleni a'r ysgol yn llwyddo unwaith eto i gipio'r cwpan a £50 am yr ysgol uchaf ei marciau yn yr adran Gelf gyda Fflur Meredith a Maisy Wright yn rhannu'r darian am yr unigolyn uchaf ei marciau. Da iawn, bawb.

Llongyfarchiadau mawr i dimau pêl-droed yr ysgol a fu'n hynod lwyddiannus yn nhwrmament pêl-droed Ysgol Dyffryn Cledlyn – tîm y merched yn dod yn ail yn dilyn ciciau penalti o'r smotyn, tîm bechgyn blyneddodd 5 a 6 yn ail wedi amser ychwanegol ac yna blyneddodd 3 a 4 yn ennill y gystadleuaeth. Diolch i'r staff am roi o'u hamser ac i Ysgol Dyffryn Cledlyn am drefnu ac am y croeso.

Yn ystod amser cinio mae nifer o ddisgyblion wedi bod yn mynychu Clwb Codio gyda Mr Jones ac wedi mwynhau dysgu nifer o sgiliau newydd.

Daeth Mr Patterson a Miss Sarah i wneud gwasanaeth yn yr ysgol a chafwyd stori hyfryd â neges glir a phwrpasol. Diolch am ddod atom unwaith eto.

Mae cyfle unwaith eto eleni i ddisgyblion baratoi bocsys Nadolig i blant yn Romania – byddant yn cael eu casglu ar Hydref 11.

Bu Lowri Meles James Evans ac Arthur Williams yn cynrychioli'r ysgol yng nghynhadledd Llais y Disgybl a gynhaliwyd yn y Siambr

yn Aberaeron a diolch i Miss Shân am oruchwylio. Cafwyd cyfle i wrando ar gyflwyniadau diddorol a mynegi barn yn ogystal â chyfarfod a disgyblion o ysgolion eraill.

Cafodd disgyblion y Cyfnod Sylfaen i gyd gyfle i fynychu sesiwn dan arweiniad "Rugbytots" a chael



Cael hwyl yn y Clwb Codio yn Ysgol Bro Pedr.



Rhai o ddisgyblion y Meithrin yn Ysgol Bro Pedr yn mwynhau sesiynau "Rugbytots" yn ddiweddar.

llawer o hwyl yn datblygu sgiliau newydd- diolch am ddod atom i'r ysgol.

Mae nifer o rieni wedi bod yn cynorthwyo yn ddiweddar drwy beintio iard yr ysgol a gwneud gwaith cynnal a chadw yn yr ardd – rydym yn gwerthfawrogi eich

cyfraniad yn fawr.

Yn rhan o'u thema bu disgyblion blyneddodd 1 a 2 yn ymweld â champws Coleg y Drindod Dewi Sant er mwyn gweld y bêl rygbi sy'n dynodi bod rygbi wedi dechrau yn Llambod.

Llanllwni



Ysgol Llanllwni

Bu grŵp o blant yr ysgol yn perfformio'r ddawns yn seremoni y Coroni a'r Cadeirio yn Eisteddfod Pantyfedwen Llanbedr Pont Steffan ar nos Sadwrn a phrynhawn Llund Gŵyl y Banc. Cawsant ganmoliaeth am gyflwyno ddawns fodern a chynnwys bechgyn ynddi. Y ddawnsyr oedd Marek, Elan, Tilly, Eirwen, Lena, Efa, Erin, Einir, Elli, Liws, Iestyn a Siôn. Da iawn chi, blant. Byddwch yn cofio'r profiad am byth! Diolch i Miss Charlotte Evans am eu hyfforddi a diolch i'r rhieni am ddod â'r plant i'r ymarferion yn ystod y gwyliau. Braf oedd gweld llun y ddawnsyr ar glawr rhifyn diwethaf Clonc.

Rydym wedi bod lawr yn y parc ar brynhawniau Gwener yn ddiweddar yn gwneud gweithgareddau yn yr awyr iach, sef helpa drysor, sgiliau pêl, cael stori am yr hydref a chasglu pethau i'r bwrdd natur.

Llongyfarchiadau i dri phlentyn a fu'n llwyddiannus mewn cystadlaethau celf yn Sioe Llansawel. Cafodd Tudur ail am hunan bortread, daeth Elli yn drydydd am beintio llun o'r hydref a chafodd Liws drydydd am greu mwgwd anifail y jynghl. Da iawn chi, blant!

Bu nifer o blant yr Adran Iau yn cymryd rhan mewn twrnament pêl droed yn Ysgol Dyffryn Cledlyn ddechrau'r tymor. Roedd yn noson hwylus iawn a chwaraeodd y plant yn dda gan ennill sawl gêm a mwynhau yng nghwmni plant o ysgolion eraill.

Daeth Elinor o'r Frigad Dân atom i'n hatgoffa am beryglon tân yn y cartref drwy stori a thrafodaeth. Gwelsom wisg dyn tân a chafodd y plant lyfryn o weithgareddau i fynd adre.

Mae Cymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r ysgol

ynghyd â'r Ysgol Feithrin wrthi yn trefnu'r Ffair Nadolig a fydd yn cael ei chynnal ddydd Sadwrn, 7fed o Ragfyr yn yr ysgol. Bydd yno stondinau amrywiol, raffl, ymweliad gan Siôn Corn a lluniaeth. Bydd y plant yn diddanu'r gynulleidfa drwy ganu carolau. Mae croeso cynnes i bawb ddod i fwynhau a chyfle gwyh i wneud siopa Nadolig.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol-

Mis Medi-

1af - £10 – Jane Lloyd, 3

Bryndulais, Llanllwni.

2ail - £5 – Aled Davies, Felinfach.

3ydd - £5 – Fiona Duffy, Gorlan, Llanllwni.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel Nonni nos Fercher, 9fed Hydref am 7.00y.h. Y Parchedig Gwyn Elfyn Jones o Bontyberem fydd yn gwasanaethu. Croeso cynnes i bawb.

Eglwys Sant Luc

Clwb 100 mis Medi:

1. £15 rhif 26 - John a Patricia Griffith.

2. £10 rhif 90 - Mary Davies.

3. £10 rhif 110 - Carol Evans.

Diolch i bawb am gefnogi; hefyd mae'n amser talu aelodaeth am 2019 – 2020.

Mae tymor y gwasanaethau diolchgarwch wrth y drws. Hydref 3ydd yw'r dyddiad i Eglwys Llanllwni; gwasanaeth i'r plant ysgol yn y prynhawn am 2, a'r hwyrol weddi am 7. Croesawir y Parch. Delyth Wilson i bregethu. Nos Wener Hydref 4ydd fe fyddwn

yn cynnal ein Swper Cynhaeaf Blyneddol yn y Neuadd am 7.30yh.

Undeb y Mamau - bydd cyfarfod cynta'r tymor ar Hydref 8fed, a hynny yn Llanbed. Fe fyddwn yn cwrdd yn yr Amgueddfa wrth fynedfa'r Coleg i weld arddangosfa leol, a hynny am 1.30yp.

C.F.F.I. Llanllwni

Mis Medi arall, blwyddyn arall i'r C.F.F.I! Braf oedd gweld 6 aelod newydd yn dechrau'r clwb eleni, a hynny yn ein noson groesawu flynyddol. Ond mae dal croeso i unrhyw un ymuno â ni; cysylltwch â ni ar Facebook am fwy o wybodaeth. Rydym wedi cael amrywiaeth o nosweithiau yn barod, gan gynnwys trip i chwarae golff yn Llanrhystud a chyflwyniad gan Cathrin Jones, un o'n haelodau, am ei phrofiad ar daith dramor gyda Ch.F.F.I Cymru.

Mae'n anrhydedd fawr i ni hefyd gyhoeddi'r swm a godwyd i'r Uned Oncoleg yn Ysbyty Glangwili yn ein Sioe Flynyddol sef £6,885.02! Carem ddiolch yn fawr am haelioni'r gymuned a chefnogwyr y clwb eleni eto a wnaeth sicrhau bod Sioe 2019 yn un mor llwyddiannus. Diolch i Fferm Wynt Gymunedol Brechfa am ariannu cost llogi'r babell fawr a ychwanegodd yn sylweddol at elw'r sioe. Hoffem hefyd ddiolch am haelioni cwmni Statkraft trwy noddi camera newydd i'r clwb. Fe ddaeth yn ddefnyddiol iawn wrth ffilmio'r Adran Wartheg yn y Sioe eleni, a byddwn yn ei ddefnyddio i ffilmio a thynnu lluniau yn nigwyddiadau'r dyfodol. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n dechrau'r paratodau ar gyfer Eisteddfod y Sir fis nesaf, ac felly'r ymarferion fydd yn llenwi'n hwythnosau am gyfnod. Cewch hanes yr Eisteddfod gennym yn y rhifyn nesaf.

Cylch Meithrin Llanllwni

Mae'n hyfryd gweld pawb wedi dychwelyd i'r Cylch Meithrin ar ôl gwyliau haf pleserus. Hoffem ddweud pob lwc wrth Chloe Simmonds, Jack Organ a Sara Zielinska wrth iddynt drosglwyddo i'r dosbarth meithrin yn Ysgol Gynradd Llanllwni. Hefyd hoffem groesawu Lucy Rodrigues a Ella Parry i'r Cylch Meithrin – gobeithiwn yn fawr y byddwch yn mwynhau eich cyfnod gyda ni.

Ein thema ar hyn o bryd yw'r fferm. Mae'r plant yn mwynhau dysgu am yr anifeiliaid fferm, megis y mochyn, y ddafad, y fuwch a'r iâr. Cafodd y plant gyfle i weld cywion bach. Fe wnaethant ddysgu am yr holl fwydydd sy'n cael eu darparu o'r fferm hefyd. Edrychwn ymlaen at ein thema nesaf sef yr Hydref.

Hoffai aelodau'r pwyllgor hysbysu eu bod yn trefnu parti Calan Gaeaf ar y 30ain o Hydref 2019, yn Neuadd yr Eglwys Llanllwni i ddechrau am 2 y prynhawn. Fe fydd yna gystadleuaeth gwisg ffansi ac amryw o weithgareddau – croeso cynnes i bawb.

Ddydd Sul yr 17eg o Dachwedd 2019, eto yn Neuadd yr Eglwys yn Llanllwni, fe fydd Suzanne Ryder, ffotograffydd proffesiynol yn cynnig sesiynau ar gyfer portreadau'r teulu. Fe fydd angen i chi drefnu amser o flaen llaw. Cysylltwch ag aelod o'r pwyllgor er mwyn gwneud hynny.

Cofiwch am ein Ffair Nadolig flynyddol a gynhelir ar y 7fed o Ragfyr 2019 yn Ysgol Gynradd Llanllwni. Dewch i weld yr amryw stondinau, cael cwrdd â Siôn Corn a chymryd rhan yn y raffl fawr. Fe fydd tocynnau'r raffl ar werth cyn hir – cysylltwch ag aelod o'r pwyllgor am docynnau – mae yna wobrau gwerth eu hennill.

Mae'r pwyllgor wedi bod yn ffodus iawn i dderbyn grant gan Statkraft – yr ydym yn ddiolchgar iawn am eu cefnogaeth. Mae'r arian yma yn gymorth mawr i sicrhau bod y Cylch Meithrin yn medru cynnig profiadau a chyfleoedd addysgiadol a gwerthfawr.

Os ydych am fwy o fanylion am Gylch Meithrin Llanllwni, cysylltwch â Nerys ar 01559 395624 neu trwy e-bost cylchmeithrinllanllwni@yahoo.co.uk. Cofiwch edrych ar ein tudalen Facebook am y newyddion diweddaraf.

Cylch Ti a Fi

Cynhelir Cylch Ti a Fi ar brynhawn dydd Mawrth yn ystod y tymor, rhwng 1 a 3 y prynhawn ar gampws yr ysgol gynradd. Pris y sesiwn yw £1.50 y teulu. Croeso i rieni, gofalwyr, mam-gus a thad-cus ddod gyda'u plant i fwynhau gwahanol weithgareddau a chael cyfle i gael sgwrs dros banded.

Cyngor Bro Llanllwni.

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 08 Gorffennaf am 8.00yh.

Agenda

Roedd y Clerc wedi rhoi poster yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod. Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y cadeirydd. Estynnwyd llongyfarchiadau i Ysgol Gynradd Llanllwni am ennill y wobwr rasio ceir. Cafwyd gwybodaeth fod y disgyblion wedi gwneud print 3D a chreu car o blastig wedi ei doddi. Roedd wyth Ysgol arall wedi cystadlu.

Llongyfarchiadau hefyd i Alwena Mair Owen (merch y Clerc) am ennill y gystadleuaeth Alaw Werin yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd 2019, ddiwedd Mis Mai. Mae Alwena, yn ogystal, wedi ennill taith i gynrychioli Cymru a chanu yn yr Ŵyl Gymreig yn Disneyland, Paris ddechrau Mis Mawrth 2020.

Y Cae Chwarae

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae.

Roedd y Clerc wedi danfon lluniau at Kangaloos i ddangos sut yr oedd y toiledau wedi eu gosod eleni rhag ofn y byddai fandaliaeth yn digwydd yn y dyfodol.

Trafodwyd symud y postyn trydan yn y cae chwarae. Penderfynwyd ceisio rhagor o wybodaeth Penderfynwyd anfon llythyr o ddiolch at Lyn Jones am dorri porfa'r Cae Chwarae mor raenus cyn y diwrnod hwyl. Roedd angen ffensiō clawdd y Cae Chwarae ar ôl torri'r cloddiau ym mis Hydref.

Roedd cynllun wedi'i baratoi yn dangos pa adnoddau oedd eu hangen. Roedd y Clerc wedi danfon e-bost at y Cyngorwyr ynglŷn â'r capiau du oedd wedi dod yn rhydd o'r offer chwarae a phenderfynwyd archebu'r capiau du.

Diolchwyd i'r Cyngor Bro am y rhodd ariannol at y gwobrau ar y dydd yn ogystal â chynorthwyo wrth y fynedfa yn ystod y dydd.

Gwefan Llanllwni

Roedd adroddiad o gyfarfod mis Mai ar y wefan ac wedi ymddangos yn 'Clonc' a 'Clecs Bro Cader'.

Cyngor Sir Gaerfyrddin

Mae Hyfforddiant Côt Ymddygiad i'w gynnal yn Llanelli ar 10 Gorffennaf ac yna yng Nghaerfyrddin ar 16 Gorffennaf am 6yh.

Cais am grant llwybrau diogel mewn cymunedau

Roedd y Clerc wedi derbyn y ffurflenni priodol.

Torri Porfa ar yr A485

Danfonwyd llythyr at Gyngor Sir Gâr i ddatgan nad oedd safon torri cloddiau eleni yn dderbyniol,

Gobeithio i chi gyd fwynhau'r gwyliau haf. Fuoeh chi i ffwrdd i rywle braf? Dyma ddisgrifiad o daith ddiddorol a gwahanol gan Jane Pearson. Beth amdani flwyddyn nesaf?

Taith i Everest

Ychydig flynyddoedd yn ôl, es i ar daith i Base Camp, Everest, gyda grŵp o bobl nad oedd wedi cwrdd â'i gilydd o'r blaen. Trefnwyd y daith gan 'British Military Fitness,' cwmni sy'n trefnu dosbarthiadau cadw'n heini o gwmpas y wlad.

Cwrddon ni ac yna hedfan o Heathrow. Cyrhaeddon ni yn ddiogel yn Katmandu. Ar ôl sawl noswaith, hedfanon ni mewn awyren fach iawn o'r enw Yeti Airlines a wedyn aethon ni mewn hofrennydd I Lukia. Cerddon ni am bythefnos cyn cyrraedd Base Camp. Mae'n rhaid i chi gerdded yn uchel a chysgu'n isel er mwyn osgoi salwch uchder. Cerddon ni am tua 6-7 awr y dydd.



Aeth y llwybr heibio golygfeydd anhygoel, drwy bentrefi bychain a heibio mynachlogydd. Roedd Sherpas gyda ni a chafodd ein pethau eu cario gan Yaks. Cysgon ni mewn 'Tai-le' neu mewn pebyll. Roedd hi'n oer yn y nos. Dw i'n cofio diuno yn y bore a roedd fy mhotel ddŵr wedi rhewi'n gorn. Cafodd awyr y nos ei lenwi â sêr a doedd dim sŵn heblaw am glychau'r yaks.



Baneri gweddi yn Base Camp

Pan gyrhaeddon ni Base Camp gallan ni weld rhewlifoedd gyda rhew glas. Chwythodd baneri gweddi yn y gwynt. Roedden ni'n lwcus ein bod wedi gallu mynd i Base Camp achos roedd wedi bwrw llawer o eira a roedd peryg afalans. Gallen ni glywed sŵn afalans yn y pellter.

Roedd yn anodd credu y safon ni ar 17,500 troedfedd. Pan hedfanon ni adre edrychais i mas ar 17,500 tr. a roedd yn e'n rhyfedd meddwl ein bod ni ar yr uchder hwnnw.

Roedd yn daith anhygoel.

Siop Siarad nesa

Cynhelir y nesaf am 2 o'r gloch dydd Iau, Hydref 10 yn yr Hedyn Mwstard. Dewch i ymuno â ni i sgwrsio ac ymarfer eich Cymraeg. Bydd Steffan o Cered yn ymuno â ni.

yn enwedig ger Pentop lle mae yn amhosib gweld i gyfeiriad Gwarallt cyn troi am Landysul.

Eisteddfod yr Urdd, Llanymddyfri 2021

Mae pwyllgor wedi ei sefydlu yn Llanfihangel-ar-arth a Llanllwni i godi arian at yr eisteddfod.

Penderfynwyd cefnogi: Bobath

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni ar 09 Medi 2019 am 8.00yh.

Llanbedr Pont Steffan

Merched y Wawr.

Ar ôl seibiant dros yr haf dechreuwyd y tymor dan ofalaeth ein Llywydd, Gillian Jones.

Diolchwyd i Elin Williams am gael defnyddio ei fformat hi o raglen y flwyddyn. Tywyswyd ni drwy'r rhaglen gan Gillian, rhaglen ddiddorol iawn.

Cyfeiriwyd at aelodau a pherthnasau a fu yn yr ysbyty gan ddymuno'n dda iddynt. Hefyd cydymdeimwyd â rhai oedd mewn galar.

Pleser oedd dymuno pen-blwydd hapus cynnar i un o'r aelodau, sef Pat, ar ddathlu pen-blwydd arbennig.

Ein gwraig wadd oedd Meinir Green. Fe'i llongyfarchwyd ar ennill y wobwr am y gwaith gorau yn adran Celf a Chrefft y Sioe Frenhinol eleni.

Cafwyd noswaith ddiddorol iawn yn ei chwmmi. Dangosodd ffyrdd gwahanol o ailgylchu trwy ddefnyddio papur, hen lyfrau, defnyddiau a gwlan. Dangosodd sut i wneud matiau, gwau gan ddefnyddio hen ddillad gwely, creu addurniadau Nadolig a mwy. Diolchwyd iddi am rannu ei dawn a'i hamynedd gyda ni gan Gwen. Roedd yn noson werth chweil ac roedd yn cydfynd â dymuniad y Llywydd Cenedlaethol, sef uwch-gylchu.

Dechreuad llwyddiannus iawn. Croeso cynnes i aelodau newydd. Dalier sylw mai amser y cyfarfodydd yn y dyfodol fydd saith o'r gloch.

Llwyddiant Eisteddfodol

Llongyfarchiadau i Ifan a Fflur Meredith ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Cwmystwyth yn ddiweddar.

Fflur 1af ar yr Unawd, 2il yn Canu Emyr a 3ydd yn Llefaru.

Ifan 1af ar Ddarllen Darn o'r Ysgrhythur 2il Adrodd Digri a 3ydd yn Llefaru.

Gwellhad Buan

Mae Mrs Irene Jones, Penarth, Heol y Bryn wedi treulio rhai dyddiau yn yr Ysbyty. Gobeithio y byddwch yn teimlo'n well yn fuan.

Diolch

Dymuna Awena, Iona a'r teulu oll ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad, mewn gair a gweithred, wedi iddynt golli mam a thad, mam-gu a thad-cu, brawd a chwaer, ac wnewl ac anti annwyl iawn, sef John ac Elizabeth Warmington. Diolch yn fawr iawn i bawb hefyd am y cyfraniadau hael er cof am John ac Elizabeth, tuag at Uned Gofal y Galon, Ysbyty Glangwili, ac elusennau Marie Cure a Severn Hosbis yn y Cartref. Yn ogystal, diolch o galon am bob cymorth, cymwynas a gofal, yn enwedig dros y flwyddyn a aeth heibio, yn ystod anhwylderau John ac Elizabeth. Rydym yn gwerthfawrogi pob dim.

Adran Llambod

Llongyfarchiadau mawr i barti unsain Adran Llambod am gipio'r wobwr gyntaf yn Eisteddfod Llambod a diolch o galon i Rhiannon am arwain a Lois am gyfeilio. Hyfryd oedd cael croesawu aelodau newydd i'n plith a diolch i Rhydian am ddod atom. Bu'r aelodau yn ymarfer nifer o sgiliau syrcas gwahanol a chael llawer o hwyl a sbri yng nghwmni ei gilydd. Bydd yr aelodau yn cymryd rhan yn y Noson Chwaraeon i adrannau a gynhelir yng ngwersyll yr Urdd Llangrannog ganol y mis.

Noddfa

Cynhelir gwasanaeth diolchgarwch yng ngofal yr Ysgol Sul yng nghapel Noddfa nos Sul 13 Hydref am 5 o'r gloch. Cymerir rhan gan y plant, y bobol ifanc a'r rhieni ac estynnir croeso cynnes i bawb. Gofynnir yn garedig i deuluoedd yr Ysgol Sul ac aelodau Noddfa ddod â chyfraniadau tuag at y Banc Bwyd os gwelwch yn dda. Gwerthfawrogi eich caredigrwydd yn fawr.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad diffuant gyda phawb sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.



Pen-blwydd hapus

Dathlodd Pat Davies, Barley Mow ei phen-blwydd yn 90 oed gyda'r gacen hyfryd hon. Pen-blwydd hapus Pat, oddi wrth eich ffrindiau i gyd.

Ennyd Gobaith

Gair byr i atgoffa darllenwyr Clonc am Oedfa Ennyd Gobaith a gynhelir yn Eglwys San Pedr Sul 20 Hydref am 2.30 y prynhawn. Oedfa yw hon ar gyfer pawb sydd wedi cael eu heffeithio gan ganser. Yn dilyn yr oedfa bydd paned ac estynnir croeso cynnes i bawb.

Aelwyd yr Urdd

Erbyn i Clonc ddod o'r wasg bydd aelodau Aelwyd yr Urdd wedi cyfarfod i baratoi rhaglen ar gyfer y tymor newydd ac i ethol swyddogion. Ceir y manylion yn rhifyn mis Tachwedd. Mae'r Aelwyd yn cwrdd bob pythefnos ar nos Fawrth ac estynnir croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Cymerir rhan mewn gweithgareddau a chystadlaethau amrywiol a hwyliog.



Dechrau Tymor yn Y Drindod Dewi Sant

Wrth i naws yr hydref ei amlygu ei hun o'n cwmpas, daeth yn amser eto i groesawu myfyrwyr Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn ôl i Llambod. Gwelwyd rhai cannoedd ohonynt yn heidio i'r campws i gofrestru ar eu priod raglenni ddiwedd Medi a channoedd eto, o bob cwr o'r byd, yn cofrestru ar eu rhaglenni ar-lein amrywiol. Beth bynnag fo'u dewis faes, mae'r Brifysgol yn awyddus bod pob un ohonynt yn profi awyrgylch unigryw Campws Llambod tra hefyd yn cael eu paratoi'n drwyadl i fod yn ddinasyddion cyfrifol a fydd yn gallu cyfrannu'n adeiladol at les a llwydd eu cymuned a'u gwlad i'r dyfodol. Beth bynnag fo cefndir y myfyrwyr, beth bynnag fo'u diddordebau, estynnwn groeso twymgalon iddynt i deulu'r Brifysgol ac i dref a bro Llambod.

Fel pob prifysgol arall yng Nghymru, mae gofyn i'r Drindod Dewi Sant addasu ei bwydlen o raglenni academiaidd yn unol â'r gofyn yn lleol ac yn genedlaethol. Rhan bwysig o ddatblygiad tymor byr y campws yn Llambod yw'r bwriad i ddarparu nifer o raglenni addysg bellach mewn partneriaeth â Choleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion. Y nod yw darparu rhaglenni ar gyfer y boblogaeth leol mewn meysydd lle gwyddys fod cyfleon gwaith ar draws y rhanbarth. Ymhlith y meysydd cyntaf i'w hysbysebu y mae cwrsela ac astudiaethau plentyndod a'r gobaith yw y gellir cynnig rhaglenni newydd mewn meysydd amgen cyn diwedd y flwyddyn academiaidd. Y nod yw datblygu Campws Llambod yn gyrchfan dysg ar gyfer y gymuned leol yn ogystal ag ar gyfer dysgwyr o rannau eraill o Gymru a thu hwnt.

Mae'r Brifysgol yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd ei pherthynas â thref Llambod. Tra ei bod eisoes yn cydweithio'n agos iawn â Chyngor y Dref a sawl mudiad a chorff lleol arall i drefnu digwyddiadau'n flynyddol ar ei campws, mae'r Brifysgol yn awyddus i gryfhau ymhellach ei hymwneud â'r ardal leol - gan gynnwys grŵp Trawsnewid Llambod a sefydliadau a busnesau penodol sydd wedi eu gwreiddio ynddi. Fel rhan o'm rôl newydd yn y Brifysgol, edrychaf ymlaen i gysylltu â'r rhain yn eu tro gan fanteisio ar gyfleon pellach i gydweithio ar brosiectau penodol a ddaw â budd i'r dref ac i'r Brifysgol fel ei gilydd.

Gwilym Dyfri Jones

Profost Campws Llambod

01570 424911 / g.d.jones@pcydds.ac.uk

Cymdeithas Hanes

Y Bon. John Phillips oedd siaradwr gwadd noson agoriadol y tymor newydd a chyflwynodd ffilmiau arbennig o waith Bethan, ei wraig.

Hanes y Pwyliaid yng Nghwm-du, nid nepell o Landeilo oedd y cyntaf; ffilm a grewyd ar gyfer y gyfres Dihirod Dyfed a ddarlledwyd ar S4C ym 1987. Daeth nifer o Bwyliaid fel ffoaduriaid i Gymru wedi'r Ail Ryfel Byd a daeth Michael Onufrejcuc i ffermio Cefn Hendre yng Ngwm-du. Daeth Stanislaw Sykut yn bartner iddo ond diflannodd yn ddisymwyth ym mis Rhagfyr 1953. Cyhuddwyd Onufrejcuc o'i ladd er na ddaethpwyd o hyd i'r un corff, a'i

garcharu am oes. Rhyddhawyd ef ym 1965 a dychwelodd i Gwm-Du, gan ofyn a oedd rhywun wedi gweld ei ffrind. Yn rhyfedd ddigon, y flwyddyn ganlynol lladdwyd Onufrejcuc mewn gwrthdrawiad â char wrth iddo groesi'r ffordd yn Bradford.

Newidiwyd y traw yn gyfan gwbwl wrth wyllo'r ail ffilm - hanes y pererinion cynnar yn dod o bobman i Dyddewi, gan aros mewn ambell eglwys ac wrth ffynhonnau sanctaidd ar eu ffordd. Credent bod dwy bererindod i Dyddewi gyfwerth ag un i Rufain a byddai tair gyfwerth â thaith i Jerwsalem. Cerfiwyd croesau yn y creigiau i nodi'r ffordd ac yn lle i'r pererinion offrymu gweddi, cyn mynd ymlaen

Llanbedr Pont Steffan

i Glyn Rhosyn lle sefydlodd Dewi Sant ei gymuned a lle'n hwyrach y codwyd yr Eglwys Gadeiriol ry'n ni'n ei hadnabod heddiw.

I ddiweddu'r noson gwelwyd ffilm fer o'r ardaloedd lleol ar ddolydd afon Teifi a'r Aeron gyda lleisiau Rosalind Lloyd a Doreen Lewis yn cydfynd â'r hyn oedd ar y sgrin.

Diolchwyd yn gynnes i John Phillips am ddangos y ffilmiau yma i'r Gymdeithas gan y Cadeirydd, gan ddiolch hefyd i Dylan Lewis am ddod i gynorthwyo â'r ochor dechnegol.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Hydref 15fed am 7.30 yn yr Hen Neuadd, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, pan fydd (Super.) Croeso cynnes i bawb.

Amgueddfa Llambod

Mae ymwelwyr o bob cwr o'r byd wedi ymweld â'r Amgueddfa eleni eto ac yn awyddus i holi ymhellach am y casgliadau sydd yno. Tybed sawl un o ddarlennwyr Clonc sy'n bwriadu galw heibio ond heb ddod i ben â gwneud eto? I ddyfynnu'r diweddar T.Llew Jones, "Peidiwch oedi'n hwy – rhag ofn!"

Bydd yr Amgueddfa'n cau dros y gaeaf ddiwedd mis Hydref, a'r casgliadau presennol yn cael eu rhoi gadw. Felly, bydd y cyfle wedi mynd. Galwch heibio – bydd y gwirfoddolwyr yn falch o'ch gweld.

Llwyddiant Pêl-droed i dîm Dan 8 Llanbed

Llongyfarchiadau mawr i dîm Dan 8 Llanbed ar ennill twrnament cyntaf y tymor newydd. Daeth eu llwyddiant mewn twrnament er cof am Gary Pugh, Llanilar yn Aberystwyth yn ddiweddar.

Plant Mewn Angen

Annwyl Gefnogwyr,

Ar y trydydd dydd Gwener ym Mis Tachwedd cynhelir Apêl Plant Mewn Angen, diwrnod pwysig iawn yn ein calendr ni a hynny ers dros 30 mlynedd. Roedd yna weithwyr a thîm gweithgar a ffyddlon y tu ôl hefyd.

Ond eleni mae Plant mewn Angen yn newid ei fformat ac felly dyma'r adeg y mae'n rhaid rhoi'r ffidil yn y to. Yn ystod y blynyddoedd casglwyd £1.1 miliwn gennym, trwy gyfraniadau personol, busnesau, cymdeithasau, capeli ac eglwysi ac yn arbennig, ysgolion. Yn wir, mae yna gymaint i'w adrodd – efallai daw cyfle i wneud hynny eto. Ond y cyfan a erys i ni a'r tîm yw diolch am y gefnogaeth ffyddlon a gawsom.

Yn ddiffuant,

Goronwy a Beti

Diolch

Dymuna Derek a Janet, Haulfryn, Maesyllan ddiolch yn gynnes i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn dilyn marwolaeth brawd Derek yn ddiweddar. Gwerthfawrogi y cyfan yn fawr.

Picau ar y maen

Cynhliawyd Gŵyl Picau ar y Maen gyntaf Llambod dydd Sadwrn 21 Medi. Cafwyd dros 70 o geisiadau, a nifer o syniadau diddorol, gan gynnwys pice oedd yn edrych fel 'Jammie Dodgers', pice gyda chaws a phice gyda Nutella! Cafodd Hazel Thomas y gwaith anodd o feirniadu. Cafodd yr ŵyl ei threfnu gan Ford Gron Llambod a chodwyd arian tuag at gostau cynnal yr arddangosfa Tân Gwylt ym mis Tachwedd.



Cellan

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw nos Fawrth, Hydref 8fed am 7 o'r gloch. Y pregethwr gwadd eleni yw y Parchedig Peter Thomas, Aberystwyth. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni.

Pen-blwydd Arbennig

Mi ddathlodd Maggie Hughes, Nythfa ei phen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Gobeithio eich bod wedi mwynhau y dathliadau, llongyfarchiadau i chi a phob dymuniad da.

Pencarreg



18 oed

Llongyfarchiadau mawr i Ffion Jones, Cysgod y Graig sy'n dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar 7 Hydref. Mwynha'r dathliadau lu! Wrth Mam, Chloe a Cerys Angharad.


Llanwnnen

Gwellhad Buan

Gobeithio bod Alan Jones, Annedd Wen yn teimlo'n well erbyn hyn ar ôl ei anhwylder yn ddiweddar.

Pen-blwydd sbesial

Dathlodd Haydn Richards, Lowtre ben-blwydd arbennig yn ystod mis Medi. Gobeithio eich bod wedi joio'r fordaith i ddathlu.



Hunangofiant John Morris, Barwn Aberafan

Gwasg y Lolfa: £7.99

Yn y llyfr hwn mae John Morris yn ymfalchïo yn ei wreiddiau yng nghefn gwlad Ceredigion, ond yn ddyn ifanc gwelwyd ef fel dafad ddu'r teulu am iddo benderfynu dilyn gyrfa fel cyfeithiwr yn hytrach na ffermwr.

Cafodd ei ethol i gynrychioli'r Blaid Lafur yn 1959 pan ddaeth yn Aelod Seneddol dros Aberafan, gan ddal y sedd honno tan iddo ymddeol yn 2001, y cyfnod hiraf i unrhyw Aelod Cymreig. Fel aelod o Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi bu'n gwasanaethu dan ddeg arweinydd Llafur, o Hugh Gaitskell hyd at Jeremy Corbyn. Cawn hanes ei berthynas â hwy yn ddiflewyn-ar-dafod.

Bu'n dal rhai o'r swyddi uchaf yn y Llywodraeth a'r Wrthblaid, fel Twrnaï Cyffredinol ac Ysgrifennydd Cymru, yn ogystal â swyddi eraill fel gweinidog, a hynny mewn cyfnodau cythryblus, megis rhyfel yr hen Iwgoslafia. Mae wedi teithio'r byd yn rhinwedd ei waith ac mae ei hanes yn croniclo cyfnod o 60 mlynedd yn y byd gwleidyddol, gan ddod â ni at y cyfnod mwyaf dadleuol oll, sef cyfnod Brexit a'r posibilrwydd o adael yr Undeb Ewropeaidd.

Cwrtnewydd

Pen-blwydd arbennig

Dathlodd Elgan Jones, Gŵel y Cledlyn ben-blwydd arbennig ddechrau mis Medi. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r diwrnod a bod yr iechyd rywfaint yn well erbyn hyn.

Diolch

Dymuna Elgan, Gŵel y Cledlyn ddiolch i bawb am yr holl gardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

DANIEL DOUGHTY

Gas/LPG & Oil Services

Renewables ■ Installation
Maintenance ■ Breakdowns
Boiler Servicing ■ Sprinklers

07969 289679
d@doughtyplumbing@gmail.com



Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth, Heol Pontfaen, Llambod
Ffôn: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref




Enw: Rhian Jones
Oed: 24
Pentref: Cwmann
Gwaith: Uwch achubwr bywyd/ hyfforddwr personol/hyfforddwr ffitrwydd cynllun atgyfeirio (NERS - GP Referral Instructor)
Partner: Harri Wilson
Teulu: Dad: Gareth Jones, Mam: Jan Jones, Brodyr: Rhys a Dan, Chwaer: Delyth-ann

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Neud llanast yn bathroom Mam 'da fy mrodyr a chwaer. O'n ni'n arfer glychu tissue a thaflu e lan i'r nenfwd nes clywed Mam yn dod lan stâr, wedyn RUN!

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Odd lot 'da fi ond fy hoff rai o'dd Old Bear Stories, The Clangers neu Tots TV.

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.
Gormod i ddewis, ha-ha!

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
Nath Dad wastad weud 'Never say never'



Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrth dy hun yn 16 oed?
Astudio i ddod yn athrawes.

Y CD cyntaf a brynest di erioed?
Dolly Parton Greatest Hits.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Cowgirl, yn byw ar ranch yn America

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?
Methu meddwl am ddim, Little Miss Pefect ... hahaha!

Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?
Nath Harri brynu Hoover robot i fy mhen-blwydd, mis yn gynnar hefyd!

Beth oedd y frawddeg fachu orau a ddefnyddiaist erioed, neu'r frawddeg fachu orau a glywaist?

Co 10 ceiniog i ti ffono dy fam i ddweud na fyddi di'n mynd gartref heno!

Pryd a ble wyt ti fwyaf hapus?
Gartref ar y ffarm 'da fy nephews a nieces, Charlie, Jac a Lili Grug

Beth yw dy lystenw?
Rhian rhedeg, Rhi, Dumbo (yr elif-fant, oherwydd fy nghlustiau)

I ba gymeriad enwog wyt ti'n debyg?
Elizabeth Banks (Scrubs)

Pwy yw dy arwyr?
Llinos Williams, what a hero!

Taset ti'n fised, pa fath fyddet ti a pham?
Chocolate finger, oherwydd ni allwch gael digon.

Taset ti'n anifail, pa anifail fyddet ti a pham?
Blaidd, oherwydd rwy'n gymeriad cryf, ffyddlon ac yn credu mewn rhyddid.

Beth yw dy arbenigedd?
Dysgu plant i nofio a rhoi hyder iddynt.

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?
Y staff rwy'n gweitho 'da nhw, wastad yn cael hwyl yn gwaith!

Beth yw'r peth gwaethaf am dy swydd bresennol?
Bod rhaid fi wastad ffeindio egni pan dwi 'di blino.

Y peth gorau am yr ardal hon?
Y golegfeydd prydferth a bod mor agos at y traeth.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Dim digon o weithgareddau gwahanol i neud ar y penwythnos.

Pa mor wyrdd wyt ti?
Rwy'n eithaf gwyrdd, ac yn casau pobl sydd yn taflu sbwriel!

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
Cymraeg gartref ac yn gwaith, ond ma rhai o'm ffrindiau yn siarad Saesneg.

Pa fath o ddeddf hoffet ti weld y Cynulliad yn ei phasio?
Rhoi stop ar ffermio cŵn bach.

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Person judgmental.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Holideis, holideis, holideis!

Beth sy'n codi ofn arnat?
Ieir

Pryd lefaist ti ddiwethaf?
Wythnos diwethaf yn gwilio'r film 'A Dog's Journey'

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?
Nos Sadwrn

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
Bob dydd pan ma Harri yn rhoi dil-lad brwnt wrth ochr y fasged a dim yn y fasged olchi!

Beth oedd y celwydd diwethaf i ti ddweud?
Ffono Arwel yn gwaith i weud bo fi'n sâl.

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuno ynddo yn y bore?
Yn y bath.

Am beth wyt ti'n breuddwydio?
Ennill arian i roi i fy nheulu.

Pryd oeddet ti'n borcyn ddiwethaf o flaen person arall?
Nithwr, o flaen Harri

Unrhyw ofergoelion?
Cerdded dros unrhyw ddraeniau

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
Cael hyrwyddo yn y gwaith.

Ac yn bersonol?
Dod yn anti i Charlie, Jac a Lili Grug.

Wyt ti'n difaru rhywbeth?
Na, byddwn i ddim y person ydw i heddi.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert / i gadw'n gryf?
Bod yn hapus, paid becco am y pethau bach.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Fy ngwaith sydd yn cadw'n fi'n heini.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
Paid gwrando ar gossip.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.
Cwrdd â Harri

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Fyddlon, ffiers, ffabiwllys!

Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?
Dwi'n ffrind ffyddlon a wastad pen arall y ffôn.

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Dacia Stepway.

Beth yw dy hoff air?
McDonalds

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
Sion Lewis, Alltyblaca

Clybiau Ffermwyr Ifanc

Y Sioe Frenhinol

Bu aelodau C.Ff.I. Ceredigion yn disgleirio gydol yr wythnos ac yn mwynhau yn y Sioe Frenhinol. Ar ôl wythnos o gystadlu brwd rhwng y Ffederasiynau daeth llwyddiant ysgubol i Sir Geredigion wrth gipio cwpan NFU ddiwedd yr wythnos.

Dyma'r canlyniadau:

Arddangosfa Ffederasiwn – 3ydd: Trisant.

Sioe Ffasiwn – 1af: Bleddyn Jones, Elli Rees ac Elen Jones, Llangeitho.

Canu – 1af: Unigol – Beca Williams, Talybont – 4ydd; Grŵp – Talybont – 1af.

Cneifio – 7fed: Huw Lewis, Trisant 8fed 21 oed neu iau a Dewi Jenkins, Talybont 5ed 26 oed neu iau.

Trin Gwlân – 7fed: Bedwyr Siencyn, Talybont.

Sioe Adloniant i Blant – 2il: Penparc.

Barnu Defaid Mule Cymreig – 6ed: Ifan Davies, Llanddeiniol 3ydd 16 oed neu iau; Teifion Morgan, Penparc 9fed 18 oed neu iau; Guto Lewis, Llanddeiniol 8fed 21 oed neu iau a Dyfrig Williams, Llangwryfon 3ydd 26 oed neu iau.

Gwisgo i Fyny – 1af: Alaw Fflur Jones ac Ella Evans, Felinfach.

Dawnsio – 5ed: Felinfach.

Tro ar Hwiangerdd – 1af: Mydroilyn.

Cystadleuaeth yr Aelodau – 2il : (Crefft, Coginio a Blodau)

Blodau – 3ydd: Cari Davies, Tregaron.

Coginio – 1af: Ffion Evans a Carys Lewis, Felinfach.

Crefft – 2il: Alaw Mair Jones, Felinfach.

Barnu Merlod Mynydd Cymreig Adran A – 6ed: Alaw Silvestri-Jones

1af 16 oed neu iau; Gwenan Owen, Mydroilyn 11eg 18 oed neu iau; Alwenna Jenkins, Talybont 5ed 21 oed neu iau a Gwawr Edwards 9fed 26 oed neu iau.

Ras Rhwystr Dall – 8fed: Owain Rees a Dafydd Eynon, Penparc.

Eitem i Gyfleu Hwiangerdd – 3ydd: Carwyn a Meinir Davies, Llanwenog.

Llyfr Lloffion – 8fed: Pontsian. Rygbi – Rownd yr 8 olaf.

Tynnu'r Gelyn – 7fed: Merched Llanddewi Brefi 6ed a Thim Iau Felinfach 4ydd.

Coedwigaeth – 1af: Osian Rees a Marc James, Penparc.

Barnu Gwartheg Duon Cymreig – 1af: Beca Jenkins, Pontsian 3ydd 16 oed ac iau; Llŷr Davies, Llangwryfon 1af 18 oed ac iau; Sioned Evans, Llanddewi Brefi 2il 21 oed neu iau a Dewi Jenkins, Talybont 3ydd 26 oed neu iau.

Rhesymau Gorau yn Gymraeg yn y Barnu Stoc dan 26 – 1af: Dewi Jenkins, Talybont.

Gêm y Cenedlaethau – cydradd 5ed: Catrin Rees a Marged Davies, Mydroilyn.

Ailgylchu Palet – 3ydd: Tomos Jones a Scott Grota, Penparc.

Dyfarnwyd bod Ceredigion yn drydydd am y marciau uchaf yn yr Adran Beirniadu Stoc dros y tair cystadleuaeth.

O ganlyniad i'r holl lwyddiannau hyn daeth Ceredigion yn gyntaf gyda 132 o bwyntiau gan ennill cwpan NFU gyda Sir Gâr a Brycheiniog yn gydradd ail (127 o bwyntiau). Canlyniad gwych! Llongyfarchiadau mawr i'r holl aelodau.

Treialon Cŵn Defaid Talybont

Cynhaliwyd Treialon Cŵn Defaid

Talybont ar y 7fed o Awst yn Llety Ifan Hen, Bontgoch. Roedd y gystadleuaeth yn agored i aelodau 26 oed neu iau CFFI Ceredigion. Llongyfarchiadau mawr i Dewi Jenkins o Glwb Talybont am ennill y gystadleuaeth.

Cwrs Swyddogion

Â blwyddyn newydd y C.Ff.I ar fin dechrau, cynhaliwyd cwrs swyddogion ddiwedd mis Awst yn Neuadd Rhyslewis a Hen Ysgol Llanilar er mwyn cynghori a chefnogi'r swyddogion newydd a gafodd eu hethol yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol eu clybiau.

Aelodau yn Serennu'n

Genedlaethol...

Llongyfarchiadau mawr i Dyfrig Williams o Glwb Llangwryfon ar ennill stocmon hŷn NFYFC ac i Elin Davies o Glwb Llanwenog ar ennill ar yr holiadur adran iau. Da iawn chi am roi Ceredigion ar y brig!

Gwobrau Clwb 200

Mis Gorffennaf

Arwyn Davies, Pentre, Llanfair, Llanbedr Pont Steffan.

Caryl Haf, Caeronnen, Llanddewi Brefi C.Ff.I. Llangwryfon.

Mis Awst

Emyr ac Ada Evans, Rhosgoch, Llanilar.

Arwyn a Heledd Williams, Llys-y-gân, Derwen Gam, Llanarth.

Ifan a Ann Jones, Fferm Foelallt, Llanddewi Brefi.

Mis Medi

Mr a Mrs Jenkins, Cathal, Cwrtnewydd, Llanybydder.

Elin Calan Jones, Penbryn Mawr, Trefenter.

Iwan Davies, 9 Minygors,

Tregaron.

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Sir ar y 18fed o Fedi yn Neuadd Llanafan. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol ar gael eu hethol i'w swyddi newydd a phob dymuniadau da.

Llywydd- Ifan Davies, Tregaron.

Is-Lywydd- Siôn Jenkins, Pontsian

Cadeirydd- Emyllt Ellis-Jones, Llangwryfon

Is-Gadeirydd- Bleddyn Davies, Caerwedros

Trysorydd- Eryl Jones

Is-Drysorydd- Aled Davies, Caerwedros

Diolch yn fawr i'r cyn swyddogion am eu holl waith caled gan sicrhau blwyddyn lewyrchus iawn i'r mudiad.

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymru ar y 14eg o Fedi yn yr Hen Goleg yn Aberystwyth. Llongyfarchiadau enfawr i Caryl Haf, Llanddewi Brefi ar gael ei phenodi yn Is-gadeirydd C.Ff.I. Cymru. Hefyd yn y cyfarfod blynyddol enillodd Ceredigion Dlws Beynon Thomas i'r Adran Iau orau a hefyd enillwyd yr Aradr, sef Tlws y Western Mail am y Sir mwyaf llwyddiannus yn 2018-2019.

Llongyfarchiadau i Rhiannon Davies, Caerwedros ar gael ei hethol yn Gadeirydd y pwyllgor Rhyngwladol ac i Elin Ratray, Trisant ar gael ei hethol yn Is-Gadeirydd Fforwm Ieuencid Cymru. Ceredigion ar y brig unwaith yn rhagor!

Pob hwyl i'r swyddogion newydd yn ystod y flwyddyn brysus.

gan Elin Jones AC



O'r Cynulliad

Hoffwn longyfarch pawb yng Ngheredigion sydd wedi bod yn gweithio'n galed iawn i sicrhau ein bod wedi mwynhau rhaglen wych o sioeau amaethyddol a digwyddiadau dros yr haf. Mae hefyd wedi bod yn gyfnod yr eisteddfodau. Llongyfarchiadau mawr i bob un o'r cystadleuwyr a'r enillwyr yn y ddau faes. Braf oedd gweld Rhiannon Ifans o Benrhyn-coch yn ennill Medal Ryddiaith yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghonwy – dwi wedi cael blas arbennig o ddarlenn ei nofel Ingrid.

Mae wedi bod yn braf cael mynychu nifer helaeth o ddigwyddiadau drwy'r sir yn y misoedd diwethaf, a da yw gweld

y busnesau twristaidd sydd mor bwysig i ni yn ffynnu.

Yn ddiweddar, rwyf wedi cysylltu gyda'r Gweinidog dros drafnidiaeth, Ken Skates, i godi'r mater am newidiadau i gardiau teithio bws. Mae dau beth yn peri gofid yn eu cylch ar hyn o bryd. Yn gyntaf, mae'r Llywodraeth wedi cynnig newid oedran argaeledd pasys bws yn unol â chodi oedran pensiwn y wladwriaeth. Fe fydd hyn yn ergyd bellach i'r menywod hynny sydd eisoes yn cael eu heffeithio gan y codiad yn oedran y pensiwn. Yr ail bryder yw bod angen i bawb ail-geisio ar gyfer pasys newydd cyn bo hir, a hynny trwy'r broses ar lein. Mae'n bosib gwneud drwy

ffurflen bapur, ond ar hyn o bryd, mae hynny'n ymddangos yn fwy lletchwith. Wrth gwrs, nid oes gan bob person oedrannus sy'n gymwys ar gyfer pas bws fynediad at gyfrifiadur. Hoffwn annog pobl felly un ai i drefnu mynd i'w llyfrgell leol i gael cymorth, neu mae croeso iddynt gysylltu â fy swyddfa i am gymorth.

Ac wrth gwrs mae Brexit mor gymhleth ag erioed. I fi, osgoi Brexit heb gytundeb yw'r flaenoriaeth fwyaf. Dyna pam siaradais yn y brotest ar brom Aberystwyth ble daeth tua 2,500 o bobl i ddangos eu gwrthwynebiad at benderfyniad Prif Weinidog y DU, Boris Johnson, i atal trafodaethau yn San Steffan.

Tra bo Senedd San Steffan yn cael ei chau, penderfynais fel y Llywydd i ail-ymgynnull Senedd Cymru yn gynnar, fel bod cyfle i Gymru drafod yr effaith y byddai Brexit heb gytundeb yn ei gael arnon ni. Cafwyd addewid yn 2016 y byddai 'pwerau yn dychwelyd i'n senedd-dai' ac mai taro'r fargen honno fyddai'r cytundeb hawsaf erioed. Pleidleisiodd neb, bryd hynny, am y llanast sydd ohoni heddiw. Mi fyddaf yn parhau i weithio am ddatrysiad a fydd yn diogelu economi a thrigolion Ceredigion.



Ffair Ram

Cynhaliwyd y 29ain Ffair Ram ar gae pentref Cwmann ar y 14eg Medi. Cafwyd tywydd braf iawn a chefnogaeth dda yn ystod y dydd.

Cafwyd gweithgareddau llwyddiannus yn ystod y dydd o dan lywyddiaeth Mr a Mrs Ceri a Sian Davies a chafwyd araith bwrpasol gan Ceri ddiwedd y prynhawn.

Cafwyd cystadlu brwd ym mhob cystadleuaeth yn yr adrannau isod ac arddangosfa dda o hen beiriannau. Dyma'r bedwerydd blwyddyn i ni drefnu Taith Dractorau yn ystod y bore. Braf oedd gweld aelodau CFFI Cwmann yn bresennol yn y sioe gan drefnu gweithgareddau ac hyrwyddo digwyddiadau dathlu 60 eleni. Darparwyd lluniaeth yn ystod y dydd gan aelodau Sefydliad y Merched Coedmor. Gwerthwyd y cynnyrch ar ddiwedd y dydd gan Roy Roach a chodwyd swm sylweddol tuag at Elusen Alzheimer's. Dyma enillwyr y gwobrau:

Adran Fferm:- Ronnie Roberts; Llysiau a Ffrwythau:- Stan Evans; Blodau:- Muriel Mc Mullan; Cynnyrch y Gegin:- Bethan Jones; Cyffeithiau a Gwinoedd:- Pat Jones; Ysgol Feithrin:- Efa Russell; Dosbarth Derbyn:- Amelia Rees; Blwyddyn 1 a 2:- Esther Jones; Blwyddyn 3 a 4:- Cai Davies; Blwyddyn 5 a 6:- Rhun Davies; Ysgol Uwchradd:- Gwenllian Jones; Arlunwaith:- Lowri Gregson; Ffotograffiaeth:- Elen Powell; Crefftau Cefn Gwlad:- Gwyn Williams; Adran Grefftau:- Eirlys Jones.

Cyflwynwyd y cwpanau canlynol: Llysiau a Ffrwythau:- Er Cof am Martin Jones Felindre;- Stan Evans; Pwyntiau Uchaf Cynnyrch y Gegin a Chyffeithiau a Gwinoedd Cwpan Sialens Bronwydd:- Pat Jones a Bethan Jones; Adran Grefftau:- Cwpan sialens Er cof am Dilys Godfrey;- Eirlys Jones; Adran Ddefaid:- Cwpan Sialens Eric Harries am y ddafad neu oen fenyw orau:- Aled Roberts; Cwpan Sialens Wyn a Mary (Ram Inn gynt) am yr Hwrdd neu'r oen hwrdd gorau:- Price Gelliwrol; Cwpan Sialens Dalgetty am yr anifail gorau:- Aled Roberts; Cwpan Sialens Teulu Hendai am y grŵp gorau o dri:- Price, Gelliwrol; Cwpan Sialens John Jones, Felindre Isaf am yr ŵyn tew gorau:- Aled Roberts.

Hoffai'r swyddogion ddiolch i bawb a fu'n helpu ac am bob cefnogaeth. Gellir gweld mwy o luniau'r ffair eleni ar wefan www.ffairram.btck.co.uk

C.Ff.I. Cwmann

Dechreuwyd y tymor newydd gyda phrynhawn o hwyl a sbri yng Nghanolfan Cwmann. Hyfryd oedd cael croesawu aelodau newydd i'n plith. Diolch i'r swyddogion am baratoi'r gêmiau hwyliog ac i Mrs Delyth Jones am baratoi bwyd blasus yn uchafbwynt i brynhawn difyr tu hwnt.

Mae'r clwb yn dathlu 60 oed eleni ac yn ystod Sioe Ram bu nifer o'r aelodau yn cwblhau sialensau'r chwechdeg – diolch i bawb a gefnogodd. Mae yna amryw weithgareddau wedi eu trefnu ar gyfer y flwyddyn i hyrwyddo'r dathlu felly cofiwch ddod i gefnogi ein Cymanfa Fodern yng Nghapel Brondeifi ar Hydref 27 a'r Sioe Ffasiynau a chinio i goroni'r dathlu.

Diolch i Mr Dylan Davies am roi o'i amser i gynnal noson bêl-droed i'r aelodau ar gaeau Astro Carreg Hirfaen. Cafwyd cyfle i ymarfer sgiliau amrywiol ac yna cael chwarae gêmiau pêl-droed ymysg ein gilydd i gloi'r noson. Bu'r aelodau wrthi'n trafod a dethol rhaglen yr eisteddfod ac fe fydd yr ymarferion yn dechrau cyn hir. Cynhelir yr eisteddfod yn Neuadd San Pedr Caerfyrddin ar Hydref 11, 18 ac 19 – cyfle i'r aelodau ddangos eu doniau mewn amryw feysydd.

Dymuniadau gorau

Gobeithio bod Megan Dafydd, Pantmeiniog yn teimlo'n well ar ôl treulio peth amser yn Ysbyty Glangwili yn ystod y mis. Rydym yn meddwl amdanat Megan.



Côr Cwmann: Cyngerdd Mawreddog

Cynhaliwyd Cyngerdd Mawreddog llwyddiannus gan y Côr yng nghwmni Ellen Williams, Kees Huysmans a phlant Ysgol Carreg Hirfaen yn Neuadd Sant Iago, Cwmann, nos Wener 6ed Medi. Llywydd y noson oedd Mr Twynog Davies ac yn ei anerchiad cyfeiriodd at beth o'i hanes yn aelod o'r Côr. Cyfeiriodd hefyd at waith dyngarol Cymorth Cristnogol ledled y byd gan ddiolch bod rhan o elw'r noson yn mynd i gefnogi gwaith yr elusen.

Cafwyd gwledd o ganeuon gan Ysgol Carreg Hirfaen, gan gôr yr ysgol a'r unawdwyrr Annie, Brychan a Trystan. Bu'n hyfryd croesawu Ellen o Gaerdydd yn ôl i'r fro, gyda'i llais soprano bendigedig yn swyno'r gynulleidfa. Yr un mor gyfoethog yw llais bás Kees, a'i ddewis o unawdau yn dangos ei ddawn gerddorol. Yr oedd ei ddeuawd gydag Ellen o gân adnabyddus Robat Arwyn, 'Anfonaf Angel' ymhlith uchafbwyntiau'r noson. Dymuna'r Côr ddiolch i Ellen, Kees, Ysgol Carreg Hirfaen a'n llywydd Twynog am noson wefreiddiol; i Elonwy Davies ac Elonwy Pugh Huysmans am eu cefnogaeth ac i bawb a gyfranodd at drefniadau'r noson; i'r noddwyr Morgan a Davies, Eden Tours, Bysiau Vincent Davies a'i Fab, Aerwen Griffiths, Gwilym Price ei Fab a'i Ferched, Garej D D Evans a'i Fab a Gwerthwyr Blodau Cascade am eu haelioni; ac i'r gynulleidfa a sicrhodd bod Neuadd Sant Iago yn gyfforddus lawn. Mae'r Côr bob amser yn falch i groesawu aelodau newydd. Dewch felly yn denoriaid a baswyr i'n hymarferion yn Festri Capel Brondeifi, Llanbed ar nosweithiau Mercher am 8.00 o'r gloch. Cewch wybodaeth bellach ar ein gwefan www.corcwmann.btck.co.uk.

Diolch

Dymuna Brenda ac Evan Morgan, Gelli Deg ddiolch yn fawr iawn am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniasant ar achlysur eu pen-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

Mae Canon Wynzie a'r teulu am

ddiolch o waelod calon am yr holl gareidgrwydd a dderbyniodd ar ei ben-blwydd. Dymuna hefyd ddiolch am yr holl gymorth drwy'r flwyddyn.

Enillwyr Misol Clwb 125 Neuadd Sant Iago, Cwmann Mis Medi

1. Rhian Jones, Hafod-Cottage, Cwmann, 29. 2. Ceinwen Evans. Fferm Felin-Fach, Cwmann, 30. 3. Veronica James, Caeralaw, Heol-y-Fedw, Cwmann, 126. 4. Bryan Lloyd, Blaenrhysglog, Ffarmers, 10. 5. Aled Evans, Hafod-Y-Gân, Cwmann, 39. 6. Myra Jones, 14, Bryn-yr-Eglwys, Llambled, 32. 7. Elgan Jones, Coedmore Hall, Cwmann, 77.

Golff

Llongyfarchiadau i Bryn Thomas o Glwb Golff Cilgwyn sydd wedi cael tymor llwyddiannus. Yn ystod mis Gorffennaf enillodd Bryn ddwy gystadleuaeth yn Wenfo - South Wales Strokeplay a South Wales Boys Matchplay. Ddechrau mis Awst cafodd Bryn ei ddewis i chwarae i dîm Cymru tan 18 yn yr 'Home Internationals' yn erbyn Lloegr, Yr Alban ac Iwerddon. Hyfryd gweld cymaint o ffrindiau, perthnasau a golffwyr Cilgwyn oedd yn ei gefnogi lawr yn Ashburnham yn ystod y gystadleuaeth. Cynhaliwyd cystadleuaeth Ysgolion Cymru yn erbyn Ysgolion Lloegr yn Corby eleni lle roedd Bryn yn ffodus i gael ei ddewis i fod yn y tîm a rhoi Ysgol Bro Pedr ar y map! Yn Aberteifi bu'n llwyddiannus a dod yn bencampwr Dyfed am y trydydd tro yn olynol. Mae Bryn wedi mynd i Goleg Hartpury yn Swydd Gaerloyw i astudio golff a chwaraeon. Pob lwc i ti, Bryn.

Enillwyr Misol y Clwb 225 Pwyllgor Pentref Cwmann Medi 2019

£20, Rhif 57-Helen Davies, c/o Brynview, Parc-y-Rhos, Cwmann; £15, Rhif 48-Amanda Evans, Annwylfan, Llanllwni; £10, Rhif 2-Berian Herbert, Dolfor, Cwmann; £10, Rhif 93-Muriel McMullan, 44 Heol-Hathren, Cwmann; £10, Rhif 200-Eleri Davies, Panswllt, Talgarreg; £10, Rhif 78-Veronica James, Caeralaw, Heol-y-Fedw, Cwmann; £10, Rhif 137-Tomos ac Elen, Felindre Uchaf, Cwmann.



Gyda llygaid ar farathon Eryri yn yr Hydref, cafodd y pellter hanner marathon (13.2 milltir) dipyn o sylw gan redwyr Clwb Sarn Helen mewn dwy ras yn ystod mis Medi, un ohonynt ar yr heol o amgylch Llyn Efyrynwy a'r llall ar lwybrau trwy ellydd Dyffryn Cothi ym Mhumsaint.

Y mae cwrs gwastad ras Efyrynwy'n gyfle i osod record bersonol am y pellter hwn ac fe'i cynhaliwyd am y ddegfed tro ar hugain ar yr 8fed o Fedi. Yr oedd 14 o aelodau'r clwb yno ymhlith y 1,286 a gwblhaodd y ras. Y cyntaf ohonynt i wneud hynny oedd Nigel Davies wrth orffen yn safle 119 mewn 1 awr 26 munud a 24 eiliad gydag Irfon Thomas mewn record bersonol o 1.26.45 ar ei warthaf a Steffan Thomas (1.28.55) a Mark Rivers (1.29.53) hefyd o fewn golwg iddynt. Yr oedd gan gapten tîm y dynion eleni, Tim Rayner (1.36.19), a Mitchell Readwin (1.47.24) le i fod yn fodlon â'u gwaith hefyd. Profodd y cwrs yn gyfaill gwell fyth i fenywod y clwb wrth i Nicola Williams (1.41.44) Heather Hughes (1.44.15) Enfys Needham Jones (1.53.15) Siân Jenkins (1.58.48) Liz Pugh (1.59.48) Elisha Jones (1.59.50) a chapten tîm y menywod eleni, Emma Gray (2.28.58), redeg eu hamserau cyflymaf am y pellter. Er ei bod wedi rhedeg y pellter hwn o'r blaen mewn llai nag awr a hanner, cafodd Eleri Rivers ddiwrnod boddhaol iawn hefyd wrth ddod yn 13eg allan o 121 yn ei dosbarth oedran mewn 1.42.59.

Un o aelodau'r Clwb, Carwyn Davies, yw sylfaenydd a threfnydd hanner marathon poblogaidd Pumsaint a dyma'r 4ydd flwyddyn iddi gael ei chynnal. Y mae hon yn rhan o bencampwriaeth flynyddol y Clwb ac unwaith eto yr oedd dros chwarter y rhedwyr a ddaeth i'r llinell gychwyn yn aelodau o'r Clwb. Bu rhaid ildio i'r buddugwyr cyffredinol Matt Yelland (1.34.30) o glwb Dyffryn Aman a Wendy Price (1.44.46) o glwb Caerfyrddin ond yr oedd rhedwyr Sarn Helen yn amlwg wrth ddosbarthu gwobrau. Yn ail cystadleuol iawn yn y ras gyfan ac yn 1af unwaith eto o blith y dynion dros 50 mewn 1.36.13 oedd Glyn Price, rhedwr llyfn a chytbwys sy'n her i unrhyw un yn ei ddosbarth mewn unrhyw ras. Rhyw ddwy funud y tu ôl iddo ac yn unol â'i berfformiadau cryfion dros yr haf, daeth Eirwyn Roberts yn 3ydd yn y ras ac yn ail yn nosbarth y dynion dan 35 gydag Irfon Thomas (1.41.54) un safle ar ei ôl. Er gwaethaf cyfnod o ymdopi ac anaf dros yr haf llwyddodd Dee Jolly (1.49.46) i ennill dosbarth y menywod dan 35. Yn nosbarth y menywod dros 45 dangosodd Delyth Crimes (2.05.13) ei chysondeb arferol trwy ddod yn ail a brwydrodd Mark Rivers (1.47.41) yn galed i ddod yn 3ydd allan o'r dynion dros 40. Ac yntau wedi ennill ei ddosbarth ym marathon Eryri lawer gwaith, cafwyd ymdrech arbennig gan Murray Kisbee i oresgyn anaf a dod yn ail yn nosbarth y dynion dros 60 mewn 2.00.46 - 3 eiliad yn unig o flaen ei gyd-aelod Michael Taylor a ddaeth yn 3ydd yn yr un dosbarth. Cafwyd ymdrechion teilwng hefyd gan Steffan Thomas (1.50.49), Mitchell Readwin (2.02.05) a Sian Roberts Jones (2.06.03.) Nid yw hon yn ras hawdd ac wedi tua 12 milltir mae'r rhedwr yn wynebu dringfa garegog a serth iawn o ganllath sy'n brawf sylweddol ar ei ewyllys. Felly rhaid llongyfarch y 14 aelod arall a redodd y ras ac yn wir bob un o'r 81 a wnaeth hynny.

Cynhaliwyd cystadleuaeth athletau arall hefyd yng Nghymru ar y 15fed o Fedi, sef treiatlhon Iron Man Cymru yn Ninbych y Pysgod - digwyddiad a gafodd cryn dipyn o sylw gan y cyfryngau. Y mae'n her sy'n golygu diwrnod caled o waith i'r cystadleuwyr - nofio 2.4 milltir yn y môr, beicio 112 milltir a rhedeg 26.2 milltir i orffen. Gyda'r Ffrancwr Arnaud Guilloux (8 awr 48

munud 5 eiliad) a'r Saesnes Simone Mitchell (9 awr 41munud 51 eiliad) yn gosod y safon i'r dynion a'r menywod yn y gystadleuaeth, yr oedd gan nifer ddethol o aelodau Clwb Sarn Helen brofiad eisoes o'r math eithafol yma o athletau. Daeth 1,868 o athletwyr i ben â gorffen y dasg ac yr oedd 6 aelod o'r clwb yn eu plith. Er ei fod wedi cyflawni'n ardderchog ynddi o'r blaen yr oedd Gareth Payne wedi canolbwyntio'n gyfan gwbl ar y gystadleuaeth hon eleni ac yn sicr fe wnaeth hynny ddwyn ffrwyth wrth iddo ddod yn 71ain (ac yn 6ed yn ei ddosbarth oedran) mewn 10 awr 24 munud a 46 eiliad. Felly hefyd yr oedd Gareth Hodgson yn anelu i wella ar ei amser anhygoel llynedd (9.43.20) ond yn ôl ei gyfweiliad ar ddarllediad S4C fe "darodd y wal" yn y marathon gan orffen mewn 11.13.24 a dyna bris uchelgais weithiau. Yn rhedwr ac yn feiciwr grymus, yr oedd Dylan Lewis yn ychwanegu nofio at ei ddisgyblaethau yn ei ymdrech gyntaf mewn cystadleuaeth o'r raddfa yma a does dim syndod iddo lwyddo'n anrhydeddus dros ben gan orffen mewn 11.19.10, tua hanner awr o flaen ei arwr, yr enwog Shane Williams. Cafwyd ymdrechion o safon uchel hefyd gan Owen McConochie a ddaeth yn 9fed yn nosbarth y bechgyn dan 18 mewn 12.19.14 a'r profiadol Aled Morgan (13.47.34) yn ei ail gystadleuaeth Iron Man eleni. Dyma 6 athletwr sydd yn haeddu seibiant.

I orffen trwy droi yn ôl i fyd yr hanner marathon, nid oedd Pumsaint na Llanwrin yn ddigon pell oddi cartref i un o sefydlwyr y clwb, sef Dawn Kenwright. Fe redodd hi'r pellter hwn yn ninas Tallin yn Estonia ar yr 8fed o Fedi gan ddod yn 3ydd yn nosbarth y menywod dros 60 mewn 1 awr 49 munud a 13 eiliad. Llongyfarchiadau iddi hithau hefyd.

Ysgol Carreg Hirfaen

Bu tîm trawsgwlad yr ysgol yn llwyddiannus iawn ym mhencampwriaeth Sir Gaerfyrddin yn ystod y mis. Roedd dros gant a hanner o blant ym mhob ras. Cipiodd Leighton Davies o flwyddyn 3 y 7fed safle yn ei ras ef. Hefyd yn llwyddo i orffen y ras mewn amser a safle gwych roedd Joshua Davies, Alis Jones, Cerys Jones, Lailaa Thomas Hassan ac Abbie Green. Da iawn i chi gyd.

Mae plant blynyddoedd 3, 4 a 5 wedi bod yn brysur iawn yr hanner tymor yma yn astudio bywyd y Celtiaid. Yn rhan o'r gwaith aethom ar daith i Gastell Henllys. Cafodd y plant gyfle i greu a choginio bara, peintio wynebâu a gwehyddu basgedi. Cawsom lawer o hwyl yn dychmygu byw mewn tŷ crwn.

Bu timoedd pêl droed yr ysgol yn cystadlu yn Ffair Haf Dyffryn Cledlyn yn ystod y mis. Tra bod tîm bechgyn blynyddoedd 3 a 4 wedi chwarae'n rhagorol ar y noson aeth y merched a thîm bechgyn blynyddoedd 5 a 6 ymlaen i ennill y twrnament. Llongyfarchiadau i bawb a gynrychiolodd Carreg Hirfaen.

Ddechrau'r mis cawsom y cyfle i fynd i gyngerdd athrawon cerdd y sir. Y thema eleni oedd 'At the Movies' a chawsom fore hyfryd yn gwrando ar wahanol offerynnau.

Cylch Meithrin Cledlyn



Cynhaliwyd Diwrnod Hwyl hyfryd ar y 14eg o Orffennaf yn Ysgol Dyffryn Cledlyn a llwyddwyd i godi dros £2,000.

Llongyfarchiadau mawr i bwyllgor a swyddogion y Cylch. Hyfryd oedd cael mabolgampau i bob oedran, cyfle i blant fynd ar y tractorau, gyda raffl, barbeciwr a stondinau eraill a nifer o bobl yr ardal yn cefnogi. Diolch i Mrs Marian Morgan, llywydd y dydd, am eiriau pwrpasol ac ysbrydoledig.

Bydd y Cylch yn agor unwaith eto ym mis Medi.



Clwb Clonc

Hydref 2019

£25 rhif 37 :

Mrs Sallie Davies, Llanllwni.

£20 rhif 325 :

Mari Lois Jones, Llanllwni.

£15 rhif 413 :

Mrs Mair Potter, Cwmsychpant.

£10 rhif 239 :

Ms Lena Jenkins, Aberaeron.

£10 rhif 262 :

Mair Jones, Llambod.

£10 rhif 104 :

Eifion Davies, Drefach.

£5 rhif 3 :

Mrs Myfanwy Bryce, Llambod.



Ysgol Dyffryn Cledlyn

*** Ymddiheuriadau am na ddangoswyd yr adroddiad yma yn y rhifyn diwethaf. ***

Llongyfarchiadau gwresog i Elin Lloyd, Drefach ar ennill ysgoloriaeth ar gyfer prif ysgoloriaeth ddawnsio y BBO. Golyga hyn y bydd hi'n teithio i Lundain yn fisol yn ystod y flwyddyn nesaf. Tipyn o gamp a llongyfarchiadau mawr i ti a dymuniadau gorau i'r dyfodol.

Diolch i'r holl ddisgyblion a fu'n perfformio ym mhroms Ceredigion eleni ddechrau mis Gorffennaf, nifer ohonyn nhw yng Nghôr Ceredigion, 4 yn canu'r delyn a Noa yn perfformio "Pysgota Sêr." Da iawn chi.

Roedd hi'n braf i ddisgyblion fynd i wyllo drama Arad Goch, Rala Rwdins, dan nawdd Ewch i Weld a phawb wedi mwynhau'r perfformiad. Cyfle arbennig!

Cafodd pawb y cyfle i bontio ddiwedd y tymor trwy dreulio diwrnod yn eu dosbarthiadau newydd cyn mis Medi a bu blwyddyn 6 yn ymweld â Bro Teifi a Bro Pedr hefyd. Dymuniadau gorau i'r 13 o ddisgyblion a fydd yn cychwyn ar eu taith addysgol newydd ym mis Medi a diolch am bob cyfraniad gwerthfawr i Ysgol Dyffryn Cledlyn. Pob lwc a chadwch mewn cysylltiad â ni.

Diolch hefyd i gyfeillion yr

ysgol a nifer o rieni a ddaeth i'n gwasanaeth ffurwelio brynhawn Llun, y 15fed o Orffennaf. Cafwyd gwasanaeth hyfryd yn rhannu atgofion a lluniau gwerthfawr o'r disgyblion yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol gynradd gyda chyfle i ganu anthem Ysgol Dyffryn Cledlyn a fersiwn blwyddyn 5 a 6 o Ni'n gadael nawr yn lle Ni'n belo nawr! Diolch i chi gyd, Dwynwen, Elin, Nia, Jac R, Jack H, Lowri, Lucas, Lucy, Megan, Sara, Steffan J, Swyn a Teifi. Llongyfarchiadau hefyd i Lowri Rees am ennill y darian am y perfformiwr gorau yn 2019, Teifi Edwards am waith mathemateg / gwyddoniaeth, a Nia Williams am fod y cymwynaswr gorau. Rhoddwyd gwobr arbennig hefyd i Lucy Moyes. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd.

Bu sawl plentyn yn gorymdeithio ddiwedd mis Mehefin yn rhan o seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Ceredigion 2020. Diolch i Mr Ebbsworth a fu yno yn tywys y disgyblion trwy dref Aberteifi a da iawn i'r bum merch a fu'n dawnsio Dawns y Blodau.

Diolch i Gyngor yr Ysgol a drefnodd daith gerdded nodedig er mwyn cefnogi'r gwasanaeth nam ar y synhwyrdd yng Ngheredigion. Mae un o'r disgyblion yn elwa tipyn o'r gwasanaeth hwn yn yr ysgol

ac felly penderfynodd y Cyngor godi arian i helpu eraill sydd â nam clyw a golwg. Trefnodd y Cyngor Ysgol daith gerdded nodedig a diolch i Nans Dôlwen am luniaeth ar y ffordd nôl. Llwyddwyd i godi £1,517.50 i'r gwasanaeth. Tipyn o gamp a diolch i chi gyd. Diolch i bawb am noddi'r disgyblion.

Diolch i Miss Wendy, fe gafodd disgyblion blwyddyn 6 gyfle i ddysgu a gweithredu cynllun Heartstart ddiwedd y tymor. Cynllun yw hwn i gynorthwyo disgyblion sut i ymateb mewn argyfwng meddygol gan gynnwys ffonio ambiwlans, gosod pobl yn y recovery position a gweithredu CPR. Mae hyn yn dipyn o gyfrifoldeb ond ymatebodd y disgyblion yn dda iawn. Diolch i Wendy am hyfforddi'r disgyblion am yr agwedd bwysig yma o fywyd.

Hyfryd oedd gweld cynrychiolaeth o'r ysgol mewn diwrnod i ddisgyblion canol Ceredigion yn trafod agweddau ar fywyd ysgol a llais y disgybl. Da iawn ti, Lily-Mae am gytuno i fod yn gadeirydd y cyngor y flwyddyn nesaf. Edrychwn ymlaen at weld ffrwyth dy lafur.

Trefnwyd prynhawn iach gan y pwyllgor Ysgolion Iach ddydd Iau yr 11eg o Orffennaf. Gosodwyd pawb mewn grwpiau a bu'r disgyblion yn creu salad ffrwythau, yn gwneud ioga ac yn dysgu faint o siwgr sydd

mewn diodydd. Edrychwyd hefyd ar iechyd meddwl, chwarae hoci, gwneud gweithgareddau corfforol amrywiol a chwilio am ryseitiau iach i'w bwyta. Braf oedd gweld y disgyblion yn prynu salad ffrwythau iachus y diwrnod canlynol!

Diolch yn fawr i'r pwyllgor am drefnu. Llongyfarchiadau hefyd i'r pwyllgor am ennill cam 54 o'r cynllun Ysgolion Iach. Rydych wedi gweithio yn ddiwyd iawn ar hyn.

Llongyfarchiadau gwresog i'r pwyllgor eco am ennill y wobr aur, sef ein baner werdd gyntaf, ar Orffennaf yr 16eg. Braf oedd gweld y pwyllgor yn cyrraedd y brig am eu gwaith cyson a diflino yn ystod y flwyddyn.

Diolch i'r holl ddisgyblion am gystadlu yn y sioeau lleol dros yr haf ac i sawl un a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Pantyfedwen hefyd. Gwych iawn.

Diolch yn fawr i Ymddiriedolaeth R.R. Davies am gefnogi'n cais a chaniatáu i ni ddatblygu yr ardal allanol yn y Cyfnod Sylfaen. O ganlyniad mae'r disgyblion yn gallu chwarae mewn corneli tywod, defnyddio'r gegin fwd a gweld arwyddion llachar, addysgiadol. Diolch yn fawr am y gefnogaeth ariannol yma.

Ysgol Dyffryn Cledlyn



Y pwyllgor Eco yn ennill y wobwr aur sef eu baner werdd gyntaf



Ffarwelio â disgyblion Blwyddyn 6



Trefnodd y Cyngor Ysgol daith gerdded nodedig



Cylch Meithrin Cledlyn



Pwyllgor Ysgolion Iach a drefnodd brynhawn iach yn yr ysgol

£17.50 yw pris Tanysgrifiad Blwyddyn
Papwr Bro Clonc.
Beth am ei brynu fel anrheg i rywun?
Cysylltwch â Mary, ysgrifenyddes
Clonc
ysgrifennydd@clonc.co.uk

EISTEDDFOD HWYL PAPURAU BRO CEREDIGION

Drysau'n agor am
7:00
Cystadlu'n dechrau am
7:30

Nos Wener, 11 Hydref, 2019
Neuadd Felinfach
ARWEINYDD: Wyn Thomas

BEIRNIAID: Iwan Evans a Calvin Griffiths

O'R LLWYFAN:

- * Darllen darn heb atalnodi
- * Datganiad cerddorol i barti o 6 o unrhyw gân o waith Dafydd Iwan, gan ddefnyddio offer cegin, gyda chyfeiliant neu yn ddigyfeiliant
- * Sgets neu ddeialog ar unrhyw destun - dim mwy na 4 munud
- * Cân Actol - dim mwy na 5 munud - hunanddewisiad

Danfônwch eich gwaith cartref dan ffugenw, gyda manylion cyswllt ac enw eich papur bro i: Yr Angor, 24 Penrhedol, Penparcau, Aberystwyth SY23 1QW erbyn 4 Hydref

GWAITH CARTREF:

- YSGOL GYNRADD:
- * Neges mewn potel - dim mwy na 50 gair
- YSGOL UWCHRADD:
- * Stori Ficro - dim mwy na 100 gair ar unrhyw destun
- AGORED:
- * Limrig - "Wrth gerdded o'r dafarn un noson"
 - * Creu 5 dihareb newydd
- DYSGWYR:
- * Adolygiad o unrhyw lyfr Cymraeg - heb fod dros 100 gair

CEFNOGWCH EICH PAPUR BRO! DEWCH I CYSTADLU!

Neges i'r Beirdd

Annwyl olygydd,

Neges sydd gennym ar gyfer y beirdd ymysg eich darllenwyr. Rydyn ni (Cyhoeddiadau'r Stamp) yn bwriadu rhoi blodeugerdd o farddoniaeth at ei gilydd yn 2020 a fydd yn cynrychioli yr ystod eang o farddoniaeth sy'n cael ei hysgrifennu trwy gyfrwng y Gymraeg ar y foment. Mae hon yn fenter gyffrous a fydd yn cynnwys gwaith gan brifeirdd a beirdd gwlad fel ei gilydd, beirdd ifanc ac aeddfed, beirdd gyda phentwr o gyfrolau i'w henw, a beirdd sy'n cyhoeddi am y tro cyntaf un.

Rydym yn fenter gyhoeddi annibynnol, yn debyg iawn i'r papurau bro. Nid ydym yn derbyn nawdd nac arian cyhoeddus ond mae ein llyfrau a'n cyfrolau i'w cael mewn siopau Cymraeg ar draws y wlad. Bydd y gyfrol hon felly yn cael ei hariannu gan yr elw o werthiant cyfrolau blaenorol a thrwy ragarchebion.

Ein gobaith yw derbyn gwaith gan ystod mor eang â phosib o gyfranwyr, felly dyma wahodd eich darllenwyr i gyflwyno 1-3 o gerddi ar gyfer eu cynnwys yn y gyfrol. Gofynnwn eu bod yn gyrru unrhyw gerddi i'w hystyried atom erbyn Rhagfyr yr 31ain, 2019 a byddwn yn ymateb gyda phenderfyniad golygyddol yn y flwyddyn newydd (erbyn mis Chwefror).

Mae mwy o wybodaeth i'w chael o'n gwefan (ystamp.cymru) neu trwy gysylltu'n uniongyrchol. Yr ebost ydi blodeugerdd2020.ystamp@gmail.com, neu i rai sydd well ganddyn nhw roi gwaith i'r dyn post: Y Stamp, Boderwyddon, Carmel, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7AN.

Buasem yn ddiolchgar ofnadwy petai chi'n rhannu'r neges hon gyda'ch darllenwyr.

Diolch o galon

Grug Muse, ar ran Cyhoeddiadau'r Stamp.

Llanfair Clydogau

Priodas Dda

Hoffem estyn ein llongyfarchiadau cynnes i Jean y Siop ac Al ei chymar sydd newydd briodi yn Gretna Green. Mae Jean wedi bod yn rhedeg y siop a'r swyddfa bost yn y pentre ers 36 o flynyddoedd a mae bob amser yn bleser i fynd yno. Mae Al hefyd wedi cyfrannu at fywyd y pentre mewn sawl ffordd ers dod i'n plith ac yn gyfrifol am sefydlu clwb bowlio mat byr yn y neuadd. Dymunwn iddynt flynyddoedd o hapusrwydd gyda'i gilydd.

Symud Cartref

Bydd llawer o bobol ein hardal yn gweld eisiau Linda a Lawrence Quelch yn fawr iawn gan eu bod wedi penderfynu symud i'r canoldir er mwyn bod yn nes at eu teulu. Daethant i'n plith flynyddoedd lawer yn ôl pan wnaethant adeiladu tŷ newydd yn y pentre. Ers hynny mae'r ddau wedi bod yn weithgar ymhob rhan o fywyd y pentre. Gwnaeth Linda gyd-sefydlu yr ymgyrch 'Golden Broth' sy'n annog pobol hŷn i ddod allan i gymdeithasu dros bryd ysgafn a gêmaw bwrdd. Mae hyn wedi ei sefydlu ers sawl blwyddyn bellach ac wedi bod yn llwyddiannus iawn. Mae Lawrence hefyd wedi cyfrannu yn helaeth at lawer o gynlluniau yn y pentref. Mae sgiliau y ddau wedi bod yn werthfawr iawn i ni yn Llanfair. Dymunwn iddynt bob hapusrwydd yn eu cymuned newydd. Yr un pryd estynnwn groeso i'r teulu newydd sydd wedi symud mewn sef Ian, Sylvia, Jodie, Martin, a Glennis.

Cydymdeimlad

Trist oedd clywed am farwolaeth Betty Lewis, Y Gorlan gynt, Heol Llanfair, a fu farw yn ddiweddar yn 95 oed. Roedd Betty yn briod â'r diweddar Eric Lewis a threuliodd y ddau flynyddoedd yn y pentref cyn symud i Gaerfyrddin. Bydd sawl un

o'r pentref yn ei chofio.

Talent Ifanc

Mae Brynmor Thomas, Awelon, Heol Llanfair wedi cael ei ddewis i gynrychioli Cymru yn y tîm dartiau cenedlaethol y tro hyn gyda'r BDO, un o'r ddau gorff llywodraethu ym myd y dartiau. Enillod Brynmor deilyngdod mewn cystadleuaeth yn Nhonyrefail fis diwethaf i ennill lle i gystadlu yn y 'BDO World Youth Masters' yn swydd Essex ym mis Hydref. Digwyddodd hyn tua dau fis ar ôl iddo ennill lle yn y tîm cenedlaethol JDC i gystadlu yng Nghwpan y Byd a Phencampwriaeth y Byd yn Gibraltar. Mae hyn yn gamp arbennig gan Brynmor gan mai dim ond ers Nadolig y llynedd y mae wedi chwarae dartiau ar lefel gystadluol. Bydd hefyd yn chwarae y tymor yma gyda thîm ieuenctid Gorllewin Cymru a byddant yn cystadlu yn erbyn Swydd Dyfnaint, Cernyw a siroedd De Cymru.

Hoffai Brynmor ddiolch i bawb sydd wedi ei noddi, am eu caredigrwydd a'u cefnogaeth, y cyfan wedi ei helpu gyda chostau cystadlu a mynd i Gibraltar. Diolch o galon i Bishop of Bedlam Promotions, Castle Green, Lampeter Tree Services, Gwili Jones, Castell Howell Foods, Volac International, Garej Brondeifi, Cadno Rosettes, Gary's Construction, Lewis Motors, J&E Joinery, Cynghrair Dartiau Llanbed, a ffrindiau a theulu sydd wedi cyfrannu mor hael.

Dymunwn siwrne hwylus iddynt i gyd a phob lwc i Brynmor yn y cystadlu.

Clwb Cant

Yr enillwyr yw -- 45. Julian Bransdon £20: 114 Glennis Gratwick. £10: 88 Tony Barker £5: 103 Daniel John £5: 48 Thea Evans £5: 96 Charlotte Allen £55: Helen/Paul John £5: 3 Alex Fox £5

Aberystwyth

CYNGERDD DATHLU'R DEG

Mae deg mlynedd wedi mynd heibio ers sefydlu Adran Aberystwyth. I nodi'r achlysur, bwriedir cynnal cyngerdd ym mis Rhagfyr yn Aberystwyth. Rydym yn awyddus i gael cymaint â phosib o aelodau cyfredol a chyn-aelodau i gymryd rhan yn y cyngerdd.

Mae croeso hefyd i aelodau newydd ymuno.

Os oes gennych ddiddordeb ac am gymryd rhan plis cysylltwch â ni ar Lona.phillips@btinternet.com

Help!

"Rydyn ni eisiau esgidiau glaw"

Mae gan Goedwig Gymunedol LongWood a Home-Start Ceredigion genhadaeth i ddarparu esgidiau glaw pan maen nhw'n ymweld â'r goedwig. Byddem yn ddiolchgar iawn i dderbyn unrhyw fath, o wahanol feintiau a lliw. Os byddwch mor garedig â chael gafael ar rai, fe allwch gysylltu â ni yn y swyddfa a gallwn drefnu dyddiad i'ch gwahodd i ddod draw i'n helpu ni i greu stondin esgidiau glaw.

Gwerthir CLONC yn.....

..... y siopau canlynol:

Aeron Booksellers, Aberaeron
Awen Teifi, Aberteifi
Co-op, Llambled
Cyfoes, Rhydaman
Eryl Jones, Llambled
Garej Central, Llanwnnen
Garej Checkpoint, Harford
Garej Heol y Gogledd, Llambled
Ffab, Llandysul
Jones Bros, Llambled
Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Mark Lane, Llambled
Medical Hall, Tregaron
Premier Siop y Gymuned, Llambled
Siop y Bont, Llanybydder
Siop y Smotyn Du, Llambled
Siop y Pethe, Aberystwyth
Siop y Pentan, Caerfyrddin
Swyddfa Bost, Llanybydder
Swyddfa Bost, Felinfach
Swyddfa Bost, Llanllwni
W D Lewis a'i Fab, Pumsaint

Cristnogaeth 21

Ydy crefydd yn ddiflastod? Ydy Cristnogaeth wedi colli ei flas? Ydy mynychu capel ac eglwys yn fwrn? Ond eto... oes gyda chi rhyw ysfa am fywyd ysbrydol sy'n berthnasol i'r unfed ganrif ar hugain? Ydy heddwch, cyfiawnder a chariad yn bwysig i chi?

Mae Cristnogaeth 21 yn rhwydwaith o Gristnogion Cymraeg eu hiaith sy'n cynorthwyo ei gilydd i hyrwyddo ymagwedd ryddfrydol a blaengar at faterion ffydd a chred. Mae cefnogwyr Cristnogaeth 21 yn perthyn i drawstoriad o'r enwadau Cristnogol traddodiadol ac yn cynnwys llawer nad ydynt yn uniaethu gydag enwadaeth o gwbl.

Mae gan Gristnogaeth 21 wefan sy'n cynnwys gwybodaeth gefndirol, byrddau clebran a chylchgrawn

parhaus, Agora, sy'n llawn erthyglau difyr a heriol. Ar y wefan mae modd cofrestru i dderbyn e-neges wythnosol sy'n gyfle i gnoi cil ar faterion crefyddol y dydd. Gallwch ymuno gyda'r grŵp Facebook hefyd i dderbyn gwybodaeth a newyddion perthnasol am Gristnogaeth ryddfrydol a blaengar yng Nghymru a thu hwnt.

Mae croeso felly i bawb – addolwyr selog, Cristnogion cwsg a phererinion chwylfrydig. Ymunwch â chriw Cristnogaeth 21 ar y daith anturus i ail-feddlw ac i ail-lunio ein hetifeddiaeth Gristnogol ar gyfer yfory.

Am fwy o wybodaeth ewch i www.cristnogaeth21.cymru ac ymunwch yn y drafodaeth.

Yn y Gegin gyda Gareth



Yn y gegin

“Gwledd y Gwrachod!”

Y mis yma rwyf am gynnig casgliad o rysetiau a fydd yn codi braw ar noson Calan Gaeaf. Bw! Rysetiau gwahanol iawn, cyffrous, lliwgar a brawychus.

Dyma rai sydd yn bendant yn addas i'r plant i'w paratoi. Troi cynhwysion cyffredin, cyfarwydd - gydag ychydig o hud a lledrith - yn bryd brawychus! Gydag ychydig wythnosau eto, mae yna ddigon o gyfle i drefnu parti, siopa am y cynhwysion, ac ymarfer. Cofiwch weini'r cyfan ar lechen ddu.

Mwynhewch y parti, a chofiwch wisgo mewn gwisg Calan Gaeaf, a phrofi Gwledd y Gwrachod!

O'r Gegin,

Gareth

'Fondue Ymennydd'

Cynhwysion

1 blodfresych

1 bocs caws Camembert neu Perl Wen

Sôs coch

Dull

1. Trowch y ffwrn i 200 C, Ffan 180. Gwaredwch y plastig, a gosodwch y caws nôl yn y bocs pren. Coginiwch am 10 – 15 munud.
2. Gwahanwch ddarnau'r blodfresych, a'u stemio am tua 10 munud.
3. I weini, torrwrch groes ar wyneb y caws; gosod y blodfresych o'i gwmpas, a pheipio'r sôs coch dros y blodfresych – i edrych fel ymennydd.

'Rholiau tafodau'

Cynhwysion

1 llwy fwrdd olew

1 winwnsyn coch

4 llwy fwrdd sôs coch

10 selsig cŵn poeth, wedi eu torri'n ddarnau hirfaen olifau duon

6 rôl cŵn poeth (finger roll)

1 pot Guacamole

Dull

1. Cynheswch olew mewn padell ffrio, a choginio'r winwnsyn, ac yna'r selsig am 5 munud, yna ychwanegwch y sôs coch.
2. Gosodwch y Guacamole yng nghanol y rholiau, yna'r tafodau selsig. Gwnewch siap pry'cop o'r olifau duon a'u gosod ar ben y rholiau.

'Pwddin Calan Gaeaf'

Cynhwysion

1 pecyn jeli leim

400ml o ddŵr pefriog

ychydig o 'Strawberry laces'

100 g siocled tywyll

3 x 150g potiau cwstard siocled

6 bisged 'Oreo' wedi malu

Dull

1. Toddwch y jeli mewn 100 ml o ddŵr berw, yna ychwanegu'r dŵr pefriog.
2. Torrwch ychydig o'r lasys mefys i waelod gwydrau bach, a rhannu'r jeli rhyngddynt. Rhewch yn yr oergell am 2 awr.
3. Toddwch y siocled, a ffurfiwch batrymau gwe pry'cop ar bapur-gwrthsaim; gadewch i oeri.
4. Rhennwch y cwstard siocled rhwng y gwydrau, yna'r bisgedi, mwy o'r lasys mefus, a rhoi gwe pry'cop siocled dros y cyfan.

Dawns
WEISH*GIFTS
Llanbedr Pont Steffan

COFRODDION A CHERDAU CYMREIG
PERSONOL AC UNIGRYW WEDI EU
GWNEUD A LLAW YN EIN GWETHIDY

DEWCH I YMWELD A'N ADARAN BRIDODASAU NEWYDD
01570 423884

CYMANFA'R CYNHAEAF
bois y gyda
ilfach

Eglwys - St Tysul
Llandysul
Sadwrn 26/10/2019
£10 y tocyn 7:30yh

Ilunieth ysgafn hanner amser
Elw'r noson - croesfa trawie'r organ bib ac elusen Bois y Giffach
Tocynnau o Siop Ffab neu'r Ficerdy 01559 363874

Campws Iau Ysgol Bro Pedr
Gadael Tir

Gan—Owen Shiers a Gwilym Morus-Baird
...sioe sy'n archwilio hanes hawliau tir a gwerthdysto yng Ngymru
19 / 11 / 2019 7.30y.h
Noddir y perfformiad gan LAS Recycling, Llanbedr

Mynediad - Oedolion-£5 Plant -£3
Gostyngiad i grwpiau o 10+ £5
Addas ar gyfer plant 14+ oed

Ticketmaster Ltd. * Nos Mogen - 0759046121 * Cary Davies-075910701
* Cary Davies-0759046121 * Jada Lee-0742020181
* Malory Bush -01370 423817 * Warden and Pate -01370 423809
* Tashia Pritchard - Gwlad Cofrestru Tref Llandysul Ceredigion 2019
Elw nos a Gwlad Cofrestru Tref Llandysul Ceredigion 2019

Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(fotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Danteithion i de
* Pwddin
* Arlwyio ar gyfer pob achlysur

Sirian Davies, Coedlannau
Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045



Neuadd y Coroniaid, Pumsaint
yn cyflwyno
John ac Alun a Clive Edwards
Llywydd y Noson:
Mr Eirian Davies, Llanwrda
Nos Sadwrn, 16eg Tachwedd
I ddechrau am 8 o'r gloch
Pris Mynediad - £12.00
Elw'r at West Wales Prostrate a'r Neuadd
Noddwyr y noson – Ieuan a Huw, Llwyndiraiad

ARWYN VOBE
ACCOUNTANCY LTD. ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

❖ Cyfrifon Blynnyddol ac Interim
❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau
❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW
❖ Cyflogau a CIS
❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu
ebost arwyn@avaccountancy.cymru

Drefach a Llanwenog

Eglwys Llanwenog

Dymunwn anfon ein dymuniadau da at Margaret Rees, Llys Dolau sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty.

Pob bendith i Simon Cox, Woodgreen ac Anicka Natasha ar achlysur eu priodas ar Awst 24ain.

Llongyfarchiadau i Eleri a Mair, Tŷ Canol ar ddod yn fam-gu a hen fam-gu yn ddiweddar merch fach i Nerys a Gareth Davies.

Clwb 100 Mis Gorffennaf

1. Mary Thomas
2. Terry Pocock
3. Meryl Lloyd

Clwb 100 Mis Awst

1. Mair Davies
2. Terry Pocock
3. Ceri Davies

Cylch Meithrin Cledlyn

Thema ein tymor yw "Pobl sy'n ein helpu." Rydym yn cwrdd bob dydd ar safle Ysgol Dyffryn Cledlyn ac yn mwynhau gwahanol weithgareddau tu fewn a thu allan. Yn dechrau yn y Cylch ym mis Medi roedd Atticus, Molly, Nia, Gwion a Gwen. Croeso mawr i chi ac edrychwn ymlaen at eich gweld yn ffynnu yn y dyfodol agos.

Hyfryd oedd gweld Siôn, Elsi a Nansi wedi ymuno gyda ni ar gyfer Cylch Ti a Fi sydd yn cwrdd bob dydd Llun rhwng 9.00 – 10.30 y.b. Dewch i ymuno â ni.

Y Gymdeithas Hŷn

Aeth y Gymdeithas Hŷn ar ei thaith olaf yr haf hwn i Hwlfordd, i ymweld â ffatri siocled. Cawsom arddangosfa a gweld sut oedd y siocled yn cael ei wneud o'r dechrau hyd y diwedd, o ddechrau'r daith gyda'r ffeuen goco yn Affrica sy'n cyrraedd y ffatri fel past coco. Gwnaeth un o'r aelodau fentro cynnig help llaw yn y broses. Yr oedd yn fore diddorol iawn. Yna cawsom rhyw awr fach i ginio, ac yna nôl i Gaerfyrddin i ymweld â'r Egin.

Cawsom ein croesawu gan Lowri, a hi a roddodd hanes yr Egin i ni, a pha raglenni sy'n cael eu cynrychu ar y safle. Aeth â ni o amgylch yr adeilad i weld y gwahanol swyddfeydd. Bu yn brynhawn addysgiadol iawn. Ar ddiwedd y prynhawn aethom yn ôl i westy'r Llwyniorwg am swper blasus.

Diolch i Jane, Mary ac Ieuan am drefnu diweddglg hyfryd i deithiau'r Haf.

Bydd cyfarfod cyntaf y Gaeaf ar Hydref 9fed yn Neuadd Drefach am 1:30 o'r gloch. Dewch i ymuno â ni – chewch chi ddim eich siomi.

Diolch

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cyfraniadau tuag at Hosbis Tŷ Hafan, er cof am Emyr Lloyd, Geryteifi, Llanwenog. Diolch – Meryl, Louise, Haydn a'r teulu.

C.Ff.I. Llanwenog

Mae'r clwb eisioes wedi ail-ddechrau ers yr haf a braf yw gweld nifer o aelodau newydd yn ein plith. Dros yr haf daeth llwyddiant i'r clwb wrth i Carwyn Davies a Meinir Davies gynrychioli'r clwb yng ngystadleuaeth yr eitem i gyfleu hwiangerdd yn y Sioe Frenhinol a sicrhau'r drydydd wobr. Hefyd aeth Lauren Jones i Stafford i gynrychioli'r clwb a CFfI Cymru yng nghystadleuaeth y Siarad Cyhoeddus Saesneg a daeth y tîm yn fuddugol ar ddiwedd y dydd. Llongyfarchiadau!

Cafwyd noson gyda'r arweinyddion yn cynnal sosial i ni yn Ysgol Dyffryn Cledlyn ar y 9fed o Fedi lle'r oedd yn braf gweld nifer o wynebau newydd yn ein plith. Yr wythnos wedyn, aethom ar dramp i Gaerfyrddin i fowlio deg a llenwi'n boliau yn McDonalds cyn troi am adre. Cafodd 'It's a Knockout' fforwm y sir ei gynnal yn Nhregaron ar nos Wener yr 20ed o Fedi ac aeth dau dîm o'r clwb i gystadlu gyda phob aelod yn cael sbort yn cwrdd ag aelodau eraill o'r sir.

Ar hyn o bryd mae'r clwb yn brysur yn paratoi ar gyfer diwrnod maes y sir a fydd yn cael ei gynnal ar yr 28ain o Fedi ac ry'n ni hefyd yn dechrau meddwl am baratoi ar gyfer Eisteddfod y Sir ddechrau mis Tachwedd. Fe fydd e 'ma chwep!

Cofiwch hefyd am Gwrdd Diolchgarwch Clwb Llanwenog nos Lun yr 21ain o Hydref yn Eglwys Llanwenog am 7:30yh. Croeso cynnes i chi ymuno â ni.

Os oes gennych ddiddordeb i ymuno â'r clwb neu am ragor o wybodaeth ewch i'r wefan: www.cffillanwenog.org.uk



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

*Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion*

Llanybydder

Cymdeithas Diabetes

Cynhaliwyd cyfarfod cangen leol Cymdeithas Diabetes Cymru yn festri Aberduar ar y degfed o Fedi. Cadeiriwyd gan Jack Jenkins. Dymunwyd wellhad buan i Betty Jones ar ôl ei salwch yn ystod yr haf ac i Hannilia Court ar ôl anffawd yng Nghaerfyrddin yn ddiweddar. Croesawyd y siaradwr gwadd gan Jack, sef Chris Doughty sydd yn barafeddyg gyda'r gwasanaeth ambiwlans yn Llambod. Cafwyd noson ddiddorol ac addysgiadol iawn ganddo. Diolchodd Jack iddo am roi o'i amser.

Mae'r cangen wedi derbyn £1,200 yn ddiweddar, elw noson Bingo a gynhaliwyd yn y Clwb Rygbi er cof am Brynmor Morris, Awelon. Yr ydym fel cangen yn cydymdeimlo yn fawr gyda'r teulu yn eu colled. Trefnwyd y noson gan Myra Morris ac Eirwyn Davies ac mae'r cangen am ddiolch i bawb am eu haelioni.

Parti Calan Gaeaf

Bydd Pwyllgor pentref Llanybydder yn cynnal Parti Calan Gaeaf ar y 1af o fis Tachwedd yn y Llew Du am 6.00 o'r gloch. Ceir cystadleuaeth am y bwmpen orau wedi ei cherfio a bydd gwobrau am y wisg orau i oedrannau gwahanol.

Ffair Nadolig

Bydd ysgol a Chylch Meithrin Llanybydder yn cynnal Ffair Nadolig ar y 7fed o fis Rhagfyr am 10.00 yn Neuadd yr Ysgol. Bydd yna stondinau amrywiol, adloniant gan y plant a bydd Siôn Corn yn galw heibio.

Bingo

Mae Cylch Meithrin Llanybydder yn cynnal noson Bingo ar yr 17eg o fis Rhagfyr am 8.00 o'r gloch yn y Clwb Rygbi.

Dathlu Pen-blwydd

Llongyfarchiadau i Tim Davies, Llys Enwyn sy'n dathlu pen-blwydd arbennig ar ddechrau'r mis. Pob hwyl gyda'r dathliadau!

Côr Lleisiau'r Werin

Ar nos Iau Medi 12fed teithiodd tua ugain ohonom i'r Hungry Ram ym Mhenuch i'n cinio blynyddol. Cawsom noson fendigedig gyda'r bwyd yn flasus iawn a'r gwmnïaeth yn hwyliog. Cafwyd cyfle i gymdeithasu ac edrych yn ôl ar flwyddyn arall. Cyflwynodd Edith, ar ran y côr, rodd fechan yr un i Elonwy, Ceinwen ac Ann gan ddiolch iddynt am eu hymroddiad a'u gwaith. Y dydd Sadwrn canlynol, bu rhai ohonom yn canu mewn barbeciw yng nghartref Cwm Aur ac fe fwynhaodd pawb yr achlysur. Cartref nyrsio Allt y Mynydd oedd y lleoliad ar y 19eg o Fedi, lle canodd y côr ganeuon Cymraeg a Saesneg a braf oedd gweld y preswylwyr yn ymuno yn y canu.

Diolch

Dymuna Gareth, 7 Bro Einon, ddiolch am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 65oed yn ystod mis Medi. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Myra Morris, Nerys a'r teulu ddiolch i bawb a gyfranodd yn dilyn marwolaeth Brynmor. Codwyd £600 i Nyrsys Gofal Llanybydder. Cynhaliwyd Bingo yng Nghlwb Rygbi, Llanybydder er cof amdano ac fe godwyd £1,200 yn ystod y noson er budd Clefyd y Siwgr. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Cyfarfod Blynyddol

Bydd y Pwyllgor Pentref yn cynnal Cyfarfod Blynyddol ar y 7fed o Hydref yn y clwb rygbi. Gobeitho gweld wynebau newydd yn ymuno â ni.

Sefydliad Prydeinig y Galon Ardal
Llanybydder a Llanbed

Noson Bingo

Yng Nghlwb Rygbi Llanybydder

22 Hydref am 8.00yh

Rhif elusen 225971



E. JONES
PLUMBING & HEATING LTD.

01570 480 108

07811 701 857

office@ejonesplumbingandheatingltd.co.uk



FFW

Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.


Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FFW
21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG
Swyddfa: 01570 422556

www.ffwinsurance.co.uk
Mae Gwasanaethau Yswiriant FFW eiddoedd a'u gwasanaethau'n cael eu gwerthu gan "Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 618281.

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWWYLLYSIAU A'U PROFANT,
3. TRETHTIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 post@adve.co.uk

Carpedi

Gwyn Lewis
Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

TEIARS
HUW LEWIS

TYRES

TEIARS
BRECYS
BATRIS
GWACAWYR

HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Mwnici ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a **Mared Jones**

Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambed

☎ 01570 423135
☎ 07811917799 /
07968821035

✉ mwniciffwnci@hotmail.com

MIS y PaPur Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Rhoi ... a rhoi rhagor eto

Oedd gen i anti yn gweithio mewn ysbyty fach mewn tre' yn y Gogledd – rhyw helpu yn y gegin a gyda'r glanhau a phethau felly.

Roedd hi'n gweithio ynghanol criw o bobol leol liwgar o ardal oedd yn enwog am ei chymeriadau ... ac roedd hithau wrth eu bodd.

Adar brith oedd amryw ohonyn nhw ond eu bod yn ofnadwy o gyfeillgar a charedig yr un pryd. Fel y dywedodd fy modryb, fydden nhw'n rhoi benthyg unrhyw beth ichi ... ond y noson honno, fydden nhw hefyd yn dringo dros glawdd yr ardd i'w ddwyn yn ôl!

Mae pobol Ceredigion yn gallu eich synnu chi yn yr un ffordd – heb unrhyw sôn am ddwyn wrth gwrs! Ond, o gofio'r enw sydd ganddyn nhw am fod yn dynn, mae'r Cardis yn eithriadol o hael.

A bod yn deg, mae'r un mor wir am ochr Sir Gâr i'r dyffryn hefyd – mae'n rhywbeth sy'n perthyn i'r ardaloedd gwledig yma o bobtu i afon Teifi.

Mae amryw o bobol yr ardal yma'n bobol fusnes dda sy'n bargeinio am y geiniog ola' ... cyn agor eu waled bersonol led y pen i gyfrannu at achos da.

Dw i'n cofi cael fy rhyfeddu wrth fynd i ffeiriau Calan Mai Ysgol Cwrtnwydd erystalwm a gweld rhodyn o bwr a phlât yn cael eu gwerthu mewn ocsiwn am £200 a £300 a neb yn cyffroi blewyn.

Mae'r sir yn enwog am godi arian at y Sioe Fawr neu, ar hyn o bryd, at yr Eisteddfod Genedlaethol. Does neb yn synnu dim bod nifer o bentrefi'r ardal eisoes ymhell tros eu targed ar gyfer Eisteddfod 2020.

Ddydd Gwener ola' mis Medi, Macmillan oedd hi a boreau coffi ar hyd a lled y cylch yn codi cannoedd ar gannoedd o bunnoedd. Ond, o feddwl, mae yna ryw beth bron bob wythnos ac unigolion hefyd yn gwneud campau anhygoel – fel rhedeg arfordir Cymru – er mwyn achosion da.

Plant Mewn Angen

Cyn hir, fe ddaw Plant Mewn Angen ac mi fydd eleni'n flwyddyn hanesyddol – y tro cynta' ers tua 30 o flynyddoedd iddo ddigwydd heb Goronwy a Beti Evans arwain yr ymdrechion yn Llanbed. Mae'r ymdrechion hynny wedi codi cyfanswm o tua £1.1 miliwn ar gyfer yr elusen – mwy na £30,000 bob blwyddyn.

Petaech chi'n tybio ein bod yn sôn am ardal gyfan gyda phoblogaeth o tua 6,000, mae hynny'n golygu rhywbeth tebyg i £5 gan bawb bob blwyddyn, heb sôn am y taliadau oedd yn mynd yn uniongyrchol i'r cronfeydd yn Llundain neu Gaerdydd.

Yn digwydd bod, roedd yr ymdrechion mawr yma'n cyd-daro efo'r adeg pan gafodd Golwg ei sefydlu yn Llanbed a dw i'n cofio'r cynnwrf oedd yna yn y dre', a Goronwy a Beti bryd hynny yn gyfrifol am gyd-drefnu digwyddiadau o bob math.

Mi fyddai criw o bobol yn y Mans yn ateb y ffôn i dderbyn arian a'r lle yn fwrlwm i gyd. Goronwy'n ysbrydoli a Beti yn cadw trefn a thîm o'u ffrindiau a'u cefnogwyr yn cadw popeth i droi.

Mae'r drefn wedi newid dros y blynyddoedd – a cholled Plant Mewn Angen yw hynny – ond mae'r ddau wedi dal ati. A dyma ni'n ôl at y dechrau, a'r pethau annisgwyl.

Yn wahanol i bron bob maes arall, dydi un hen ddihareb Gymraeg ddim yn gweithio ym maes codi arian elusennol. Fel rheol, mae 'Deuparth gwaith ei ddechrau' yn dweud calon y gwir – yn aml iawn, cymryd y cam cynta' sy'n anodd; unwaith yr ydech chi wedi dechrau, mae pethau'n dod yn haws.

Ym maes codi arian, y gamp ydi dal ati. Mi allwn ni i gyd wneud rhyw ymdrech fawr un waith ond peth arall hollol ydi gwneud yr un peth dro ar ôl tro ar ôl tro.

Mae mwy na 30 mlynedd yn dipyn o record – i Beti a Goronwy am drefnu ac i bobol yr ardal (gan gynnwys y Cardis) am fod mor barod i roi.

PHILIP JONES
FINANCIAL SOLUTIONS

Agricultural, Construction and Business Finance

Cyllid Amaethyddol, Adeiladu
& Busnes • Offer Amaethyddol
ac Adeiladu • Ceir a Cherbydau
Masnachol • Cyfleusterau
Amddiffiniad Offer Newydd a
Ddefnyddir

Rheolwr Ardal: Bedwyr Davies
07757 668339 / 01544 340562
bedwyr@pjfinancialsolutions.co.uk
www.pjfinancialsolutions.co.uk

Authorised and regulated by the
Financial Conduct Authority No FRN 690293

Gwasanaethau Coed Llambed



Cae Celyn, Heol Llanfair,
Llambed, SA48 8JX
01570 422819

www.lampetertrees.co.uk

Cwmni teuluol all ddelio â
phob math o breblemau gyda choed.

W.D. Lewis
a' Fab

Masnachwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Bronb Stores
Pumsaig, Llanwrda
Tel: 01558 650215



COMPASS
OFFICE
SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llanbed, Heol Tregaron,
Llanbed.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

CANOLFAN ADDURNO
AA
A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerau, Polion a thraciaau lleni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

WILLIAMS
& **BOURNE**
CYFREITHWYR,
COMISIYNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

1 Sgwâr Harford,
Llanbed

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.


Annwyl Ffrindiau,

Helo blant, shw mae? Wel mae'r Hydref bron â chyrraedd ac yna bydd y dail yn dechrau newid eu lliwiau. Dw i wedi bod yn brysur dros ben yn tacluso fy nghragen yn barod ar gyfer y tywydd oer. Bues i hefyd yn cystadlu yn sioe leol Aberoncyn y penwythnos diwethaf ac enillais darian anferth am y crwban â'r gwddf hiraf. Roeddwn wrth fy modd! Ydych chi erioed wedi ennill gwobr am gystadlu? Wel, beth am roi cynnig ar y gystadleuaeth hon?

Bu nifer fawr ohonoch yn brysur iawn yn ystod y mis diwethaf yn lliwio llun a diolch i chi am liwio lluniau mor daclus. Llongyfarchiadau i bawb ond yn enwedig i Eli-may o Brengwyn, Soffia Draycott Evenden o Llanybydder a Sara Fflur Pugh o Ystrad Meurig am luniau bendigedig. Ond yr enillydd y mis hwn yw Efa Draycott Evenden, 10 Heol-y-dderi, Llanybydder. Da iawn ti, Efa, am liwio'r llun mor daclus gan ddefnyddio holl liwiau'r enfys.

Wwww... mae'n dechrau oeri gyda'r nos nawr ac mae'r dail yn dechrau newid eu lliwiau. Dw i'n hoff iawn o dymor yr Hydref gan mai dyma'r amser lle dw i'n cael cyfle i orffwys a thacluso. Mae fy ffrind Waldo'r wiwer yn hoffi'r hydref hefyd. Beth am fynd ati i liwio llun ohono a'i ddychwelyd ataf erbyn 25 Hydref.

Hwyl am y tro,



Enillydd
y mis!

Efa
Draycott
Evenden


Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio symudol
ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladdau
- Digwyddiadau Maes
- Peiriant Rhostio Mochyn ar gael

Bar symudol ar gyfer
digwyddiadau allanol
boed yn fawr neu'n fach



Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

Enw: _____ **Oed:** _____

Cyfeiriad: _____

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i enw'ch plentyn ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

Llofnod Rhiant/Ceidwad: _____

Efallai bod eich banc ddim yn cynnig cyngor – ond dwi yn!

Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor ardanol i chi?

Os ydych wedi canfwrh gwasanaeth bwa ac aegus ariannol preffurysol, gallaf eich cynorthwyo!

Gyda throes 27 o ffynnyddaudd a broffid, gallaf gynnig cyngor ar:

Cynilo a Buddsoddi • Yswiriant a Diogelo • Cyllunio ar gyfer ymddol
Thlakaau treth • Rheoli Ystad • Mergolau ar Yswiriant Cartref

Cysylltwch â mi am gynngor ardanol amlwggyrchol

Richard Owen Jarman Dip CIL, Cert CIL(MF)

Wealth Management Partner, True Potential Wealth Management LLP

M: 07816 923618 E: richardjarman@tpllp.com

www.richardjarman.tpllp.com

true potential
wealth management

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid
gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn
cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____

Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Bag Siopa Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i'ch enw ac enw'ch pentref
ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

5			7			9	6		
6	9		1				5	4	
8	3	7		9					
		2				8			
				8		4	7	6	
2	8				5		1	9	
	7	4		1				2	

Ateb Swdocw Medi

Llongyfarchiadau i Mary
Jones, Llanbed, a diolch
i bawb arall am gystadlu:

Sian Blake, Gorsgoch;
Bethan Thomas,
Pontsian; Bethan
Williams, Llanybydder;
Richard Evans,
Olmarch; Eurwyn
Davies, Llanybydder,
Avril Williams, Cwmann, Mair
Williams, Pencader a Glenys
Davies, Llanybydder.

4	1	8	6	9	3	2	7	5
9	2	3	7	8	5	1	6	4
5	7	6	2	4	1	8	9	3
1	8	2	3	5	6	7	4	9
6	9	4	8	1	7	5	3	2
7	3	5	9	2	4	6	1	8
3	4	1	5	6	2	9	8	7
2	6	9	4	7	8	3	5	1
8	5	7	1	3	9	4	2	6

A wydddech chi y byddwn yn dosbarthu bagiau bin bwyd gyda'ch bagiau glas eleni?

Mae hyn i'ch helpu chi i ailgylchu eich gwastraff bwyd yn haws.

O 7 Hydref 2019, y nifer mwyaf o fagiau du y gallwch eu rhoi allan i'w casglu fydd 3 bob pythefnos, felly mae'n bwysicach nag erioed i ailgylchu eich gwastraff bwyd.

Po fwyaf y byddwch yn ei ailgylchu, y lleiaf o fagiau du y bydd gennych. Ar gyfartaledd mae bron hanner cynnwys bagiau du yn Sir Gaerfyrddin yn gallu cael ei ailgylchu a gwastraff bwyd yw cymaint â chwarter ohono.

Cofiwch y gallwch roi cynifer o fagiau glas ag y mynnwch allan i'w casglu a chaiff eich bin bwyd ei gasglu bob wythnos.

Os oes angen cad i brown neu fin gwyrdd newydd amoch, gallwch gasglu un o'ch Hwb Gwasanaethau Cwsmeriaid agosaf, sy'n haws, neu gallwch archebu un ar-lein.

Hefyd bydd rhai newidiadau yn cael eu cyflwyno yn ein canolfannau ailgylchu o 7 Hydref 2019. Gofynnir i breswylwyr wahanu unrhyw eitemau y gellir eu hailgylchu o'r eitemau na ellir eu hailgylchu cyn iddynt gyrraedd.

Bydd yr holl fagiau du yn cael eu hagor ac os byddant yn cynnwys unrhyw eitemau y gellir eu hailgylchu, bydd yn rhaid eu sortio ar y safle.



Ewch i: sirgar.llyw.cymru/ailgylchu

Sir Gâr yn ailgylchu
Carmarthenshire recycles



Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambled, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breics * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

LHP

- CYFRIFWYR
- ARCHWILWYR
- YMGYNGHORWYR



CYFRIFWYR
SIARTREDIG
ICAEW

81 Stryd y Bont, Llambedr Pont Steffan, SA48 7AB

Start your Welsh journey with us.
We'll help you build confidence to
use the language.

Siarad Cymraeg? Eisiau magu
hyder i ddefnyddio'r iaith?

For your first step into learning - or back
into learning - go to learnwelsh.cymru

Ewch i dysgucymraeg.cymru
am fwy o wybodaeth.



CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llambedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,
Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.**

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aifeddiannu am eich cartref.

Pencampwyr!



Tîm y merched a thîm bechgyn Blwyddyn 5 a 6, Ysgol Carreg Hirfaen yn ennill y twrnament pêl-droed yn Ffair Haf Dyffryn Cledlyn



Aelwyd Llambled yn ennill y gystadleuaeth lefaru yn Eisteddfod Llambled



Leighton a oedd yn 7fed yn nhrwsgwlad Sir Gâr.



Ifan a Fflur Meredith a oedd yn llwyddiannus yn Eisteddfod Cwmystwyth



Adran Llambled yn cipio'r wobwr gyntaf yng nghystadleuaeth y Parti Unsain yn Eisteddfod Llambled.



Ymgom Ysgol Bro Pedr yn cipio'r wobwr gyntaf yn Eisteddfod Llambled – da iawn Logan, Martha, Elen ac Ifan



Llongyfarchiadau i fechgyn bl 5 a 6 Ysgol Bro Pedr am ddod yn ail yn nhrwnament pêl-droed Ysgol Dyffryn Cledlyn.



Llongyfarchiadau mawr i ddisgyblion Ysgol Bro Pedr a fu'n llwyddiannus yng nghystadlaethau Eisteddfod Llambled. Derbyniodd yr ysgol gwpan a £50 am yr ysgol uchaf ei marciau a Fflur Meredith a Maisy Wright yn derbyn tarian am yr unigolyn uchaf ei marciau. Da iawn bawb.



Llongyfarchiadau i ferched Ysgol Ysgol Bro Pedr am gipio'r ail wobwr yn nhrwnament pêl-droed Ysgol Dyffryn Cledlyn.



Llongyfarchiadau i fechgyn Ysgol Bro Pedr am ennill twrnament pêl-droed Ysgol Dyffryn Cledlyn.



Tîm pêl-droed Blwyddyn 3 a 4 Ysgol y Dderi